| Y wybodaeth yn y Ddogfen | |
|---|---|
| Cymeradwywyd y Polisi gan | Wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych |
| Dyddiad Cymeradwyo | 7 Tachwedd 2024 |
| Dyddiad Gweithredu | 7 Tachwedd 2024 |
| Printio enw ac arwyddiad y Pennaeth | Geraint Rowe |
| Printio enw ac arwyddiad Cadeirydd y Llywodraethwyr | Geraint Lewis-Jones |

# Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant Gwasanaethau Addysg ac Ysgolion 2024-25

## Personél Diogelu a Rhifau Cyswllt

| Personél Diogelu | Manylion Cyswllt |
|---|---|
| Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb dros Ddiogelu: | Ceri Lewis<br>LewisC1086@Hwbcymru.net |
| Pennaeth: | Geraint Rowe (Dros-dro)<br>geraint.rowe@denbighshire.gov.uk |
| Unigolyn Diogelu Dynodedig: | Geraint Rowe<br>geraint.rowe@denbighshire.gov.uk |
| Dirprwy Unigolyn Diogelu: | Fflur Williams<br>Williamsf162@hwbcymru.net |
| 2il Ddirprwy Unigolyn Diogelu: | |
| 3ydd Dirprwy Unigolyn Diogelu: | |
| Swyddog Diogelu'r Gwasanaethau Addysg: | Mr Wayne Wheatley<br>wayne.wheatley@denbighshire.gov.uk<br>**01824 708064** |
| Desg Gymorth y Gwasanaeth Lles Addysg | **01824 708064** |
| Y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (CFS) Y Porth Plant | **01824 712200**<br>Dylid anfon yr holl atgyfeiriadau at: cfsgateway@denbighshire.gov.uk |
| Y Tîm ar Ddyletswydd mewn Argyfwng y Tu Allan i Oriau | 8.30 am - 5 pm Lluniau / Gwener 4.30 pm<br>**0345 0533116** |
| Yr Uned Ddiogelu ac Adolygu | **01824 708391** |

## Cynnwys


1. Disgrifiad o'r ysgol
2. Rhagymadrodd
3. Rhagarweiniad
    - 3.1 Cyflwyniad i Ddiogelu
    - 3.2 Adrodd a Chofnodi
4. Rhwymedigaethau Diogelu'r Awdurdod Lleol
5. Rhwymedigaethau Diogelu Ysgolion
    - 5.1 Y Corff Llywodraethu
    - 5.2 Y Pennaeth
    - 5.3 Arweinydd Diogelu Dynodedig
    - 5.4 Pob aelod o staff
6. Gwasanaeth Plant
7. Dyletswydd Atal
8. Gweithdrefnau
9. Cymorth
10. Plant ag Anghenion Arbennig / Ychwanegol (ADY)
11. Cefnogi Staff
12. Honiadau a wneir yn erbyn Aelodau o Staff
13. Recriwtio mwy diogel
14. Diogelwch Safle'r Ysgol
15. Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) Sir Ddinbych
16. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
17. Cyfrinachedd a Rhannu Gwybodaeth
18. Polisïau Cysylltiedig (Mae'n rhaid i bob polisi gael ei ddarllen a'i ddilyn gyda'r polisi hwn)
    - 18.1 Awdurdod Lleol Polisïau'r Ysgol - www.denbighshire.gov.uk
19. Cydymffurfio â'r Polisi hwn

**Atodiadau**

Atodiad A - Diffiniadau o Ddiogelu

Atodiad B - Categorïau o Berygl o Niwed

Atodiad C - Dangosyddion Niwed

Atodiad D - pan fydd plentyn yn datgelu gwybodaeth am blentyn arall

Atodiad E - Camau i'w cymryd pan fo bwriad i siarad â phlentyn i ganfod p'un ai a oes yna bryder yn bodoli yn ymwneud ag amddiffyn plant

Atodiad F - Camau i'w cymryd wrth gwrdd â pherson ifanc i ganfod a yw'r protocol Ymddygiad Rhywiol Niweidiol yn berthnasol neu a yw perthynas rywiol yn peri perygl o niwed iddynt

Atodiad G - Cofnod o Gontractwyr/Ymwelwyr Dyddiol

Atodiad H - Rhannu Gwybodaeth

Atodiad I - Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Addysg

Atodiad J - Manylion Cyswllt Porth Cefnogaeth Plant a Theuluoedd

Desg Gymorth y Gwasanaeth Lles Addysg: **01824 708064**

Y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (CFS) Y Porth Plant **01824 712200**

Dylid anfon pob atgyfeiriad at: cfsgateway@denbighshire.gov.uk

Tîm Dyletswydd Argyfwng Tu Allan i Oriau Swyddfa **0345 0533116**
(8.30 am - 5 pm Lluniau / Gwener 4.30 pm)

Yr Uned Ddiogelu ac Adolygu: **01824 708391**

D.S. Bydd gan bob aelod o staff fynediad i'r polisi hwn, sydd i'w weld ar y platfform SharePoint drwy Hwb a bydd pob aelod o staff yn llofnodi i ddweud eu bod wedi darllen a deall y cynnwys.

**Defnyddiwch eich cyfeiriad e-bost Hwb i gael mynediad i SharePoint.**

## Rhagair

Mae'n rhaid i'r polisi hwn gael ei fabwysiadu gan gyrff llywodraethu ysgolion bob blwyddyn, ac mae'n rhaid i staff y gwasanaeth addysg sicrhau eu bod wedi darllen a'u bod yn deall eu dyletswyddau cyflawni ac adrodd o fewn Adran 175 Deddf Addysg 2002 ac Adran 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae'n rhaid i ddiogelu barhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer pob aelod o staff a dylent barhau i fod yn wyliadwrus ac yn ymwybodol y gall plant fod yn agored i gamfanteisio a niwed yn eu cymunedau, ar-lein ac yn eu cartref.

Plant diamddiffyn yw plant sydd wedi cael eu nodi fel rhai sy'n wynebu risg uwch o brofi niwed neu'r rhai sy'n wynebu risg o gyflawni canlyniadau gwael yn eu profiadau bywyd.

Canllawiau Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi Llywodraeth Cymru

Canllawiau 293/2023

https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-ysgol-hawdd-ei-ddarllen

Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at ysgolion a gynhelir, Unedau Cyfeirio Disgyblion, lleoliadau EOTA, rhieni/gofalwyr ac awdurdodau lleol.  Mae'n ddogfen ymarferol ar gyfer arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill sy'n amlinellu'r dulliau a'r adnoddau y gall ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau EOTA eu defnyddio i helpu i sicrhau lefelau ymgysylltu a phresenoldeb uchel gan ddysgwyr.  Dylid mabwysiadu'r dulliau a'r adnoddau hyn, eu datblygu ac adeiladu arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn alinio ag anghenion plant a rhieni/gofalwyr.

Ni ellir ystyried presenoldeb ar wahân i bopeth arall.  Mae achosion rhyngberthynol ac sy'n gorgyffwrdd o ran absenoldeb a natur amrywiol profiadau dysgwyr yn yr ysgol, yn y gymuned ac yn y cartref yn golygu bod angen strategaethau ysgol gyfan a threfniadau gwaith amlasiantaeth cryf a gaiff eu llunio i gefnogi pob dysgwr.  Mae dealltwriaeth gynyddol bod hefyd angen i ysgolion gefnogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o berthyn, cysylltedd ac ymgysylltiad â'r ysgol, ac adeiladu eu gwytnwch a'u gallu i ymdopi â'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Dylid darllen y canllawiau ar y cyd â pholisi presenoldeb yn yr ysgol a diogelu Sir Ddinbych a'r nifer o themâu a dulliau a gaiff eu hystyried a'u mabwysiadu gan yr ysgol i wella ymgysylltiad a phresenoldeb disgyblion ymhellach.  H.y, canlyniadau yn sgil ffactorau yn eu bywydau.

Mae'n rhaid i ysgolion a gwasanaethau addysg fod yn ymwybodol ac yn wyliadwrus iawn o amgylchiadau o'r fath a gweithredu drwy roi gwybod am bryderon i'r staff diogelu dynodedig yn eu hysgol, neu'n uniongyrchol i'r gwasanaethau plant statudol ble mae'r plentyn yn byw.

### Sut gallwn gefnogi Plentyn

Ni all un ymarferydd gael darlun lawn o anghenion ac amgylchiadau plentyn.  Er mwyn i blant a theuluoedd dderbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir, mae gan bawb sy'n dod i gysylltiad â nhw rôl i'w chwarae o ran nodi pryderon, rhannu gwybodaeth a chymryd camau prydlon.  Diffinnir diogelu a hybu lles plant  at

ddibenion y polisi hwn fel a ganlyn:

- Darparu cymorth a chefnogaeth i fodloni anghenion plant cyn gynted ag y daw problemau i'r amlwg

- Diogelu plant rhag camdriniaeth, p'un a yw hynny o fewn neu'r tu allan i'r cartref, gan gynnwys ar-lein.

- Atal amhariad i iechyd a datblygiad meddyliol a chorfforol plant.

- Sicrhau bod plant yn cael eu magu mewn amgylchiadau cyson gyda darpariaeth o ofal diogel ac effeithiol

- Cymryd camau gweithredu i sicrhau bod holl blant yn cael y canlyniadau gorau

## 1. Disgrifiad o'r Ysgol

Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol wledig, ddwyieithog dan reolaeth gydag ethos Cymreig cryf. Fe'i lleolir tua dwy filltir y tu allan i dref Rhuthun ac mae'n gwasanaethu teuluoedd Llanfair, Pwllglas a'r cyffiniau. Mae'r ysgol yn amgylchedd hapus a diogel ac yn cefnogi pob disgybl i ddatblygu hyd eithaf ei allu. Mae'r staff yn brofiadol, yn ofalgar ac yn ymroddedig i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Ysgol ddwyieithog yw Llanfair, a'i blaenoriaeth yw sicrhau bod pob disgybl yn gadael yn 11 oed gyda'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cymraeg yw iaith yr ysgol, fodd bynnag mae gan rieni'r dewis i'w plant gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Ers 2023 mae'r Meithrin a'r Derbyn yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl Gymraeg. Ar draws yr ysgol, addysgir 82% o'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg a 18% trwy'r Saesneg. Canran y plant sy'n derbyn Cefnogaeth Dargededig yw 14.7% a'r rhai sy'n derbyn Darpariaeth Dysgu Ychwanegol yw 2.1%. Mae 8.4% o blant ar y gofrestr Cinio Ysgol Am Ddim, mae'r rhain uwchlaw'r cytundeb Cinio Ysgol Am Ddim Cyffredinol. Ar adeg ysgrifennu mae 122 o blant ar y gofrestr o'r Meithrin i Flwyddyn 6.

**Disgrifiad o Lunio Polisi a'r Broses Ymgynghori**

Mae'r polisi hwn yn ystyried y dogfennau allweddol canlynol:

- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 283/2022 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a dogfennau eraill a restrir yng Nghylchlythyr 158/2015
- Canllawiau Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi Llywodraeth Cymru 2023
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 009/2014 Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2020 Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol
- Gweithdrefnau ar gyfer Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn ac Anghymwystra yn y Gweithlu Addysg yng Nghymru, Canllawiau 168/2015
- Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2014
- Canllawiau Llywodraeth Cymru Polisi Diogelu 'Enghreifftiol'
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Adolygiad o Drefniadau Diogelu JICPA - Cyngor Sir Ddinbych - 2023

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) - 2014
- Fframwaith Rhwng Cyfoedion 2022 CSDd

## 2. Rhagarweiniad

- Cefnogodd yr Awdurdod Lleol ysgolion drwy baratoi polisi drafft ar gyfer ymgynghoriad gyda staff yn dilyn Adolygiad o Ddiogelu ac Amddiffyn Plant yn Sir Ddinbych yn 2014.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng Cyngor Sir Ddinbych, cynrychiolwyr arweiniol o grwpiau clwstwr ysgol, undebau, y cwnsler cyfreithiol ac arbenigwyr annibynnol. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ymgynghori â Chyrff Llywodraethu ac yn benodol gyda'r Llywodraethwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant a'r Swyddog Amddiffyn Plant enwebedig. Casglwyd, dadansoddwyd ac ystyriwyd y safbwyntiau a'r farn o'r ymarfer ymgynghori trylwyr hwn a datblygwyd polisi drafft diwygiedig.
- Rhannwyd y polisi terfynol yn ffurfiol gyda Bwrdd Diogelu Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych a'r Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol [Grŵp AYP BRhDP Gogledd Cymru] ar 18 Mehefin 2015. Darparwyd y Polisi Diogelu 'Enghreifftiol' yn ffurfiol i bob ysgol ar 18 Mehefin 2015. Adolygwyd y polisi hwn rhwng mis Ionawr 2016 a mis Mehefin 2016, ac fe'i darparwyd yn ffurfiol i bob ysgol ar 1 Medi 2016.
- Cyflwynodd, ENW, Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol bolisi'r **ysgol** wedi'i adolygu a'i ddiwygio i'r Corff Llywodraethu ar DYDDIAD lle cafodd ei gymeradwyo a'i gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod.

## 3. Cyflwyniad

## 3.1 Beth yw Diogelu?

Mae Diogelu yn golygu amddiffyn plant rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed, ac addysgu'r bobl o'u hamgylch nhw i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Diffinnir diogelu a hybu lles plant sy'n mynychu ysgol at ddibenion y polisi hwn fel a ganlyn:

- amddiffyn plant rhag y risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.
- atal niwed i iechyd neu ddatblygiad plant.
- sicrhau bod plant yn cael eu magu mewn amgylchiadau sy'n gyson â darpariaeth o ofal diogel ac effeithiol; a
- Cymryd camau gweithredu i alluogi pob plentyn i gyflawni'r canlyniadau gorau

Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Ac Adran 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae diogelu plant yn hollbwysig yn ENW'R YSGOL. Dylai'r ysgol ddarparu amgylchedd diogel a chynhwysol ble gall plant a phobl ifanc ffynnu a thyfu. Er mwyn cyflawni hyn mae ystod eang o fesurau wedi eu rhoi mewn grym, drwy bolisïau, fel yr amlinellir yn Adran 17.

Mae diogelu plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod yn anochel yn golygu ansicrwydd, amwysedd a ffaeledigrwydd o ganlyniad i wybodaeth gyfyngedig, rhagdybiaethau amherffaith ynglŷn â lles y plentyn yn y dyfodol ac nid oes yna ddull pendant o gydbwyso hawliau gwrthdrawiadol y rhieni a'r plant. Ond mae'n egwyddor sylfaenol fod amddiffyn plant rhag niwed yn gyfrifoldeb yr holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant fel yr amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019. Mae rhieni a'r cyhoedd yn disgwyl y safonau uchaf gan ymarferwyr i ddiogelu plant, ond mae cyflawni'r rhain yn her i bawb sy'n gweithio yn y maes hwn.

Mae Cyngor Sir Ddinbych a Chorff Llywodraethu ENW'R YSGOL yn llwyr gydnabod y cyfraniad mae'n ei wneud i amddiffyn plant a diogelu a'r nod yw nid yn unig lleihau'r perygl i blant ond sicrhau bod eu hiechyd a'u lles ar ei orau. Mae'r termau 'amddiffyn plant' a 'diogelu' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl a dyma pam mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio'r termau; gellir eu gweld yn **Atodiad A**.

Mae'r Strwythur Arweinyddiaeth Diogelu Ysgol fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Corff Llywodraethu | - | Trosolwg Strategol |
| Pennaeth | - | Arweinyddiaeth Gyffredinol |
| Arweinydd Diogelu Dynodedig | - | Rheoli a Gweinyddu Gweithredol |
| Pob Aelod o Staff | - | Dyletswydd gyfreithiol i gofnodi a rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant |

## 3.2 Rhoi Gwybod a Chofnodi

Mae yna dair prif elfen, yn arbennig o ran diogelu plant:

- Atal drwy'r addysgu a'r gefnogaeth fugeiliol a gynigir i ddisgyblion
- Gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu achosion tybiedig o gam-drin. O ganlyniad i'n cyswllt dyddiol gyda phlant, mae staff ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar yr arwyddion allanol o gam-drin
- Cefnogaeth i ddisgyblion a allai fod wedi eu cam-drin.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl lywodraethwyr, staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol. Mae athrawon, staff cyflenwi, cynorthwywyr addysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion a staff swyddfa i gyd yn gallu bod yn bwynt cyntaf o ran datgelu i blentyn.

Yn ogystal â bod yn berthnasol i'r rhestr o bobl a nodir uchod, mae'n gosod rhwymedigaethau personol arnynt.

## Adrodd

**Mae'n RHAID i bob aelod o staff gofnodi ac adrodd am unrhyw broblemau amddiffyn plant, pryderon neu amheuon i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig gyda chyn lleied o oedi ag sy'n bosibl ac ar ddiwrnod y pryder, ynghyd ag atgyfeiriad neu gyswllt â'r Gwasanaeth Porth Plant a Theuluoedd (gweler Atodiad L)**

**Nid mater o ddewis ar ran yr unigolyn yw hyn ond mae'n ddyletswydd ar ymarferwyr unigol i roi gwybod am bryderon fel yr amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.**

## Cofnodi

**Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o bob pryder, trafodaeth a phenderfyniad a wneir, a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny a'u storio'n gywir ar systemau'r ysgol. Bydd hyn yn helpu ag unrhyw gwynion i'r dyfodol am yr ymdriniaeth â'r achos ac unrhyw broses gyfreithiol neu ymholiadau pellach y dylid ymgymryd â hwy mewn achos.**

**Dylai** cofnodion gynnwys:

- crynodeb clir a chynhwysol o'r pryder
- manylion am sut cafodd y pryder ei olrhain a'i ddatrys, a
- nodyn o unrhyw gamau a gymerwyd, penderfyniadau a wnaed, a'r canlyniad.

Os ydych yn ansicr am ofynion cofnodi, dylai staff drafod gyda'r arweinydd diogelu dynodedig (neu'r pennaeth)

## Y ddyletswydd PREVENT

**Y Ddyletswydd Prevent – Beth i'w wneud os oes gennych chi bryder am unigolyn?**

**Sylw dyledus – mae'n golygu y dylai'r ysgol roi pwysau priodol ar yr angen i atal pobl rhag cael eu denu i mewn i derfysgaeth.**

**Diffinnir radicaleiddio ac eithafiaeth fel y broses lle bydd unigolyn yn dechrau cefnogi terfysgaeth a mathau o eithafiaeth sy'n arwain at derfysgaeth (Strategaeth Prevent Llywodraeth EM)**

Os oes gan aelod o staff bryder am unigolyn neu deulu penodol fe ddylid dilyn gweithdrefnau diogelu arferol eich ysgol, gan gynnwys trafod y pryder Prevent gyda'ch arweinydd diogelu dynodedig yn yr ysgol a gwneud atgyfeiriad at dimau atgyfeirio gofal cymdeithasol plant neu oedolion eich awdurdod lleol.

Fe’ch cynghorir hefyd i gysylltu â Swyddog Prevent Heddlu Gogledd Cymru a all siarad â chi yn gyfrinachol ynglŷn ag unrhyw bryderon a'ch helpu i gael mynediad i gymorth a chyngor.

## 4. Rhwymedigaethau Diogelu Awdurdod Lleol

Rhaid i’r Awdurdod Lleol wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod eu swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gyda’r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant. [Adran 175 Deddf Addysg 2002].

Bydd yr Awdurdod Lleol yn:

- Monitro cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Dilyn Canllawiau Llywodraethu Cymru – Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022
- Sicrhau bod cyngor, canllawiau a hyfforddiant ar gael fel bo’r angen

## 5. Rhwymedigaethau Diogelu Ysgolion

### 5.1 Y Corff Llywodraethu:

- Rhaid cael llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu, monitro a chydymffurfiaeth yn yr ysgol.
- Sicrhau bod gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddelio â materion amddiffyn plant a diogelu.
- Sicrhau bod yr ysgol yn dilyn prosesau recriwtio diogel a gweithio’n agos gyda’ch darparwr gwasanaeth wrth weithredu a monitro’r gwiriadau cyflogaeth hyn.
- Sicrhau bod gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddelio â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn aelodau o staff.
- Sicrhau bod corff llywodraethu’r ysgol yn cael diweddariadau bob tymor am gamau gweithredu diogelu a mesurau yn yr ysgol a bod y rhain yn cael eu cofnodi yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu.
- Sicrhau bod asesiad risg diogelu safle yn cael ei gyflawni bob blwyddyn yn unol â gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.
- Monitro cydymffurfedd â’r polisïau a’r gweithdrefnau hynny.

- Sicrhau bod unrhyw ddiffygion o ran trefniadau amddiffyn plant yn cael eu dwyn i sylw ac yn cael eu cywiro heb unrhyw oedi.

- Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymgymryd â hyfforddiant priodol sy'n gymesur â'u gradd, yn unol â strategaeth hyfforddi'r ALl **Atodiad I**.

- Sicrhau bod aelod o'r Corff Llywodraethu wedi'u henwebu ar gyfer cysylltu â'r ALl ac asiantaethau eraill fel bo'n briodol, pe bai honiadau o gamdriniaeth yn cael eu gwneud yn erbyn y Pennaeth.

- Adolygu eu polisïau a gweithdrefnau bob blwyddyn.

## 5.2 Y Pennaeth:

- Sicrhau bod yna uwch aelod dynodedig o staff, sydd wedi dilyn hyfforddiant priodol a phellach sy'n ofynnol i'r rôl. Bydd y rôl hon yn cael ei galw'n Arweinydd Diogelu Dynodedig; bydd enw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a'r Dirprwy Unigolyn Diogelu yn cael eu harddangos yn glir o amgylch yr ysgol.

- Sicrhau bod Arweinydd Diogelu a enwyd bob amser ar y safle yn yr ysgol neu fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw faterion diogelu/Amddiffyn Plant gan Unigolyn Diogelu a enwyd wedi ei hyfforddi.

- Sicrhau bod trefniadau ffurfiol ar waith dros holl wyliau'r ysgol. Mae'n rhaid rhannu'r trefniadau hyn gyda'r Uned Diogelu ac Adolygu. (Gweler y rhif cyswllt ar dudalen flaen y polisi).

- Cyfeirio unrhyw fater ar y diwrnod mae'r pryder yn cael ei godi gyda'r arweinydd. Os oes ansicrwydd, mae cyngor ar gael bob amser drwy Wasanaeth y Porth Plant a Theuluoedd neu Ddesg Gymorth y Gwasanaeth Lles Addysg. (Gweler y rhifau cyswllt ar dudalen flaen y polisi).

- Gweithio'n agos gyda'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu, a fydd yn goruchwylio polisi diogelu ac amddiffyn plant ac arferion yr ysgol.

  Sicrhau bod staff gyda chyfrifoldeb dros ddiogelu yn derbyn cefnogaeth ac arfer myfyriol yn rheolaidd

- Gweithio gyda phob aelod o'r Corff Llywodraethu i sicrhau eu bod yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu gan gynnwys diweddariadau yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu, adroddiadau diweddaru ac archwiliadau.

- Cydnabod rôl yr Arweinydd Diogelu Dynodedig a threfnu cefnogaeth a hyfforddiant. Mae'r Arweinydd Diogelu Dynodedig o fewn yr ysgol yn ffigwr allweddol a bydd yn derbyn hyfforddiant diweddaru, uwch ac ychwanegol yn unol â'r Strategaeth Hyfforddiant Awdurdod Lleol (**Atodiad I**).

- Bydd y Pennaeth wedi darllen a deall Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Rhif: 009/2014 - Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn

erbyn athrawon a staff eraill.

- Sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:
    - Enw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a beth yw eu rôl,
    - Enw'r Llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu,
    - Bod ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol unigol dros gyfeirio pryderon diogelu ac amddiffyn plant i'r arweinydd diogelu dynodedig o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt,
    - Bod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros gyfeirio pryderon i'r Dirprwy Unigolyn Diogelu os nad yw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gael,
    - Bod ganddynt ddyletswydd i ddilyn pryderon a gwneud atgyfeiriadau os oes angen.

- Sicrhau bod aelodau o staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all fod yn rhoi gwybod am gam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddatgelu camdriniaeth.

- Sicrhau bod rhieni'n deall y cyfrifoldeb sydd ar yr ysgol a'r staff yn ymwneud ag amddiffyn plant a diogelu drwy nodi ei hymrwymiadau ym mhrosbectws yr ysgol a dogfennau/taflenni eraill o'r fath.

- Darparu hyfforddiant gorfodol i'r holl staff fel eu bod yn ymwybodol:
    - o'u Cyfrifoldeb Personol,
    - o Weithdrefnau'r Ysgol y Cytunwyd Arnynt,
    - o'r Angen i Fod yn Effro i Adnabod Achosion o Gam-drin,
    - o Sut i Gefnogi Plentyn sy'n Dweud Wrthych am Gamdriniaeth a Chamfanteisio

- Mae **Atodiad B** yn darparu diffiniadau o gamdriniaeth/esgeulustod/niwed sylweddol

- Mae **Atodiad C** yn darparu dangosyddion camdriniaeth/esgeulustod/niwed

- Mae **Atodiad D** yn darparu cyngor ar gyfrifoldebau staff – beth i'w wneud?

- Mae **Atodiad E** yn darparu cyngor ar gamau i'w cymryd pan fo bwriad i siarad â phlentyn i ganfod p'un a oes yna bryder yn bodoli yn ymwneud ag amddiffyn plant

- Mae **Atodiad F** yn darparu cyngor ar gamau i'w cymryd wrth gyfarfod person ifanc i ganfod a yw'r protocol YRhN yn gymwys neu a oes yna berthynas rywiol sy'n peri risg o niwed iddynt

- Sicrhau bod Hysbysiad yn cael ei anfon at y Swyddog Diogelu Addysg **a'r** gweithiwr cymdeithasol a enwyd ar gyfer y Gwasanaethau Plant lleol a'r Swyddog Plant sy'n Derbyn Gofal Addysg ar gyfer y plentyn lle mae'r plentyn yn byw os bydd yr ysgol:
    - yn gorfod gwahardd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol,

- yn gorfod gwahardd disgybl sy'n Blentyn sy'n Derbyn Gofal, naill ai am gyfnod byr neu'n barhaol,
- yn gweld bod disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb eglurhad.

- Sefydlu a chynnal cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol ac ysgolion fel sy'n ofynnol, gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion amddiffyn plant, gan gynnwys presenoldeb mewn adolygiad cychwynnol a chynadleddau achos, grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig cynhwysfawr i'r cynadleddau. Bydd ysgolion yn mynychu'r cyfarfodydd uchod ac ni ddylid dirprwyo'r cyfranogiad hwn ar ôl y gynhadledd achos cychwynnol h.y. rhaid i ysgolion fynychu'r holl gyfarfodydd yn y dyfodol am blentyn penodol ar ôl ymrwymo i fynychu cyfarfodydd grŵp craidd.

- Gweithredu a rhannu gwybodaeth a rennir gan atgyfeiriadau Ymgyrch Encompass Heddlu Gogledd Cymru gyda staff sydd angen gwybod yn ddyddiol.

- Sicrhau y cedwir cofnodion ysgrifenedig yn ymwneud â phryder am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad, unigolion sy'n bresennol yn ystod trafodaethau, camau a gymerwyd, y rhesymau y cafodd unrhyw benderfyniadau eu gwneud gan gynnwys, os mai'r penderfyniad yw i beidio rhoi gwybod), hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater i'r Gwasanaethau Plant yn syth, **Atodiad D**.

- Sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel ac mewn lleoliadau wedi'u cloi (gweler y Weithdrefn Cadw Cofnodion).

- Cadw at y weithdrefn a nodir yng nghylchlythyr canllawiau Llywodraeth Cymru pan wneir honiad yn erbyn aelod o staff. Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2020 - Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 009/2014 – (Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill).

- Sicrhau bod y gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 283/2022 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Pennod 5 a gweithio'n agos gyda'ch darparwr gwasanaeth wrth weithredu a monitro'r gwiriadau cyflogaeth hyn.

## 5.3 Yr Arweinydd Diogelu Dynodedig:

- Ymgymryd â'r hyfforddiant priodol ac uwch sy'n ofynnol i'r rôl hon, fel y nodir yn y strategaeth hyfforddi, **Atodiad I.**

- Bod ar safle'r ysgol neu sicrhau bod trefniadau priodol ar waith yn eu habsenoldeb, i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw faterion diogelu/amddiffyn plant gan Unigolyn Diogelu Dynodedig wedi ei enwi ac wedi'i hyfforddi.

- Cyfeirio unrhyw fater ar y diwrnod mae'r pryder yn cael ei godi gyda'r arweinydd. Os oes ansicrwydd, mae cyngor ar gael bob amser drwy Wasanaeth y Porth Plant a Theuluoedd neu Ddesg Gymorth y Gwasanaeth Lles Addysg. (Gweler y rhifau cyswllt ar dudalen flaen y polisi).

- Gweithio'n agos gyda'r holl staff i oruchwylio polisi ac arfer diogelu'r ysgol.

- Cefnogi staff ysgol gyda chyfrifoldeb dros ddiogelu gan ddefnyddio Canllawiau Fframwaith Cefnogi CSDd.

- Gweithio gyda phob aelod o'r Corff Llywodraethu er mwyn deall a chyflawni holl gyfrifoldebau'r ysgol.

- Rhoi gwybod i'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr am unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â'r weithdrefn neu ofynion hyfforddiant pellach.

- Bod yn effro i arwyddion o gam-drin a gwybod sut i ymateb i ddisgybl a allai roi gwybod am achos o gam-drin a sut i ymateb i ddisgybl a allai ddatgelu achos o'r fath.

- Ar ôl derbyn Hysbysiad, sicrhau bod yr hysbysiad hefyd yn cael ei anfon at weithiwr cymdeithasol a enwyd y Gwasanaethau Plant lleol neu'r Swyddog Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal lle mae'r plentyn yn byw os yw'r ysgol:
    - yn gorfod gwahardd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol,
    - yn gorfod gwahardd disgybl sy'n Blentyn sy'n Derbyn Gofal, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol,
    - yn gweld bod disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb eglurhad.

- Sefydlu a chynnal cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol ac ysgolion fel sy'n ofynnol, gyda ffocws penodol ar faterion amddiffyn plant, gan gynnwys presenoldeb mewn adolygiad cychwynnol a chynadleddau achos, grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau. Bydd ysgolion yn mynychu'r cyfarfodydd uchod ac ni ddylid dirprwyo'r cyfranogiad hwn ar ôl y gynhadledd achos cychwynnol h.y. rhaid i ysgolion fynychu'r holl gyfarfodydd yn y dyfodol am blentyn penodol ar ôl ymrwymo i fynychu cyfarfodydd grŵp craidd.

- Rhannu gwybodaeth a dderbynnir gan Ymgyrch Encompass i staff sydd angen gwybod am bryderon gyda phlentyn a amlinellir yn yr atgyfeiriad gan Heddlu Gogledd Cymru.

- Sicrhau y cedwir cofnodion ysgrifenedig yn ymwneud â phryderon am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad, unigolion sy'n bresennol yn ystod trafodaethau, camau a gymerwyd, y rhesymau y cafodd unrhyw benderfyniadau eu gwneud gan gynnwys, os mai'r penderfyniad yw i beidio rhoi gwybod), hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater i'r Gwasanaethau Plant yn syth, **Atodiad D**.

- Sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel yn electronig a/neu mewn lleoliadau wedi'u cloi (gweler y Weithdrefn Cadw Cofnodion).

- Cadw at y weithdrefn a nodir yng nghylchlythyr canllawiau Llywodraeth Cymru pan wneir honiad yn erbyn aelod o staff. Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2020 - Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 009/2014 – (Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill).

- Sicrhau bod y gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 283/2022 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Pennod 5

- Bydd yr Unigolyn Diogelu Dynodedig wedi darllen a deall Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Rhif: 009/2014 - Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill

## 5.4 Yr holl staff:

- Mae gan bob aelod o staff ddyletswydd cyfreithiol i gofnodi ac adrodd am unrhyw broblemau amddiffyn plant, pryderon neu amheuon i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig cyn gynted ag y caiff ei nodi ac y mae'n ymarferol bosibl ac ar y diwrnod y caiff y pryder ei nodi i Borth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (gweler Atodiad L). **Nid yw hyn yn fater o ddewis yr unigolyn. Mae yna ddyletswydd gyfreithiol arnoch chi i gofnodi a rhoi gwybod am eich pryderon ar y diwrnod y codwyd yr honiad/pryder.**

- Deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

- Yn gyfarwydd â gweithdrefnau a phrotocolau'r ysgol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant ac yn eu dilyn ac yn gwybod pwy y dylid cysylltu â nhw yn yr ysgol i fynegi pryder ynglŷn â lles plentyn;

- Bod yn effro i arwyddion o gam-drin ac esgeulustod.

- Bod â mynediad at a chydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.

- Deall yr egwyddorion a'r arfer a gaiff eu cynnwys yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

- Wedi cael hyfforddiant diogelu i lefel sy'n gymesur â'u rôl a'u cyfrifoldebau.

- Gwybod pryd a sut i atgyfeirio unrhyw bryderon am gam-drin plant ac esgeulustod at y Gwasanaethau Plant neu'r Heddlu.

- Gwybod **na** ddylid byth gofyn i blentyn, rhiant, gofalwr, perthynas neu aelod o'r cyhoedd sy'n mynegi pryderon ynghylch lles plentyn wrth weithiwr proffesiynol a / neu weithiwr asiantaeth i wneud hunan-atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant neu'r Heddlu. Mae'n rhaid i'r gweithiwr proffesiynol a/neu asiantaeth wneud yr atgyfeiriad.

- Gwybod os oes gan unrhyw unigolyn wybodaeth, pryderon neu amheuon fod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed, mai eu dyletswydd gyfreithiol nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Plant neu'r Heddlu, sydd â dyletswyddau statudol a phwerau i wneud ymholiadau ac ymyrryd lle bo angen.

Yn ychwanegol at eu dyletswydd a'u cyfrifoldeb i wneud atgyfeiriadau, mae ffyrdd eraill y gall pawb sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd gyfrannu at ddiogelu plant a'r broses amddiffyn plant:

- Trin lles y plentyn â'r pwys mwyaf

- Bod yn effro ac yn ymwybodol o'r risgiau y gall camdrinwyr unigol neu gamdrinwyr posibl eu hachosi i blant

- Cydnabod pan fydd rhiant neu ofalwr wedi cyfaddawdu gallu i fagu plant, hynny yw, problemau a allai effeithio ar eu gallu i ddarparu gofal effeithiol a phriodol, neu a allai olygu eu bod yn peri risg o niwed i blentyn

- Bod yn ymwybodol o effaith ac effeithiau cam-drin ac esgeulustod ar blant

- Bod yn ymwybodol y gall plant fod yn agored i gamfanteisio troseddol a rhywiol drwy linellau sirol, unigolion a gangiau

- Bod â dealltwriaeth o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sy'n sail i'r broses o asesu anghenion, cynllunio gwasanaethau ac adolygu effeithiolrwydd darparu gwasanaeth yn ystod pob cam o weithio gyda phlant a theuluoedd

- Rhannu a helpu i ddadansoddi gwybodaeth fel bod modd ffurfio asesiad llawn gwybodaeth o anghenion ac amgylchiadau’r plentyn

- Cyfrannu fel sy'n ofynnol i ddarparu cymorth neu wasanaeth penodol i’r plentyn neu aelod o’i deulu fel rhan o gynllun y cytunwyd arno a chyfrannu at adolygu cynnydd plentyn

- Cyfrannu fel y bo angen ar bob cam o'r broses amddiffyn plant
- Cyfrannu at adolygu canlyniadau ar gyfer y plentyn yn erbyn amcanion penodol a rennir yn rheolaidd

- Cydweithio â’r rhieni oni bai bod hyn yn anghyson â’r angen i sicrhau diogelwch y plentyn

- Wedi ymrwymo i gydweithredu’n llawn â'r holl asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant.

Mae’r asiantaethau partner a restrir yn Neddf Plant 2004 yn rhannu cyfrifoldeb statudol dros ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac mae dyletswydd gyfreithiol ar bob gweithiwr proffesiynol sy’n gweithio i’r asiantaethau hynny i roi gwybod am bryderon.

**Nid yw hyn yn fater o ddewis yr unigolyn.**

Mae’n rhaid rhoi gwybod i’r Gwasanaethau Plant neu’r Heddlu am achos a amheuir o gam-drin plentyn, sef yr asiantaethau sydd â phwerau statudol i ymchwilio i achosion a amheuir o gam-drin. Ni ddylai asiantaethau gynnal eu hymholiadau amddiffyn plant mewnol eu hunain, ond yn hytrach atgyfeirio eu pryderon. Os yw'r pryder yn ymwneud ag aelod o staff, gweler Adran 10 y polisi hwn.

## 6. Gwasanaethau Plant

Mae'r Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd yn cynnig cymorth cynnar drwy gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant, gofalwyr a'u teuluoedd yn Sir Ddinbych. Hefyd, y Porth Cefnogi yw'r pwynt mynediad sengl i aelodau'r cyhoedd neu weithwyr proffesiynol gysylltu â nhw os oes ganddynt unrhyw bryderon am blant, pobl ifanc neu deuluoedd diamddiffyn.

Fe fydd yr holl atgyfeiriadau Amddiffyn Plant yn cael eu hadolygu a'u prosesu o fewn un diwrnod gwaith. Os yw eich pryderon yn ymwneud â phlentyn neu unigolyn ifanc sydd mewn perygl uniongyrchol o niwed, yna fe'ch cynghorir i roi gwybod i Heddlu Gogledd Cymru ar 101 neu 999 yn dibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa. Ar gyfer unrhyw bryderon Amddiffyn Plant a Diogelu eraill rydym yn eich cynghori i gyflwyno eich atgyfeiriad yn electronig ac wedi hynny ffonio'r Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd, bydd hyn o gymorth iddynt o ran blaenoriaethu atgyfeiriadau yn ymwneud ag amddiffyn plant sy'n ymofyn sylw.

### Sut i gysylltu â'r Tîm Porth Gwasanaethau Plant

Y rhif gwybodaeth, cyngor a chymorth yw **01824 712200**

Gellir anfon ymholiadau dros e-bost at unrhyw un o'r canlynol hefyd:

cfsgateway@denbighshire.gov.uk (e-bost lefel diogelwch arferol neu gellir cael mynediad drwy gyfnewidfa data ddiogel Switch Egress)

cfsgateway@denbighshire.gcsx.gov.uk (e-bost diogel – allrwyd cyswllt diogel Llywodraeth y DU)

## 7. Atal

Dan Ddeddf newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 mae gan ysgolion ddyletswydd i adnabod yn gynnar anghenion yr holl blant / pobl ifanc gyda'r diben o atal ac amddiffyn.

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch da, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn dibynadwy yn helpu i ddiogelu plant. Felly, bydd yr ysgol yn:

- sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel a lle cânt eu hannog i siarad, a lle y gwrandewir arnynt
- sicrhau eu bod yn gwybod pwy yw'r holl oedolion yn yr ysgol y gellir cysylltu â nhw os ydynt yn poeni neu mewn trafferthion
- cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd yn y cwricwlwm ar gyfer ABCh, sy'n rhoi sgiliau i blant y mae eu hangen arnynt i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth a sicrhau eu bod yn gwybod at bwy i droi i gael help

Cynnwys deunydd yn y cwricwlwm fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran sgiliau gofal plant a magu plant (fel y bo'n briodol). Dylai fod yna le preifat lle gall plant/pobl ifanc siarad â'r oedolyn priodol. Ni ddylai

gweithwyr proffesiynol fynd i'r lle preifat hwn ar eu pen eu hunain gyda'r plentyn/unigolyn ifanc.

## Y Ddyletswydd Prevent

Dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 mae gan yr ysgol ddyletswydd statudol i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. I ysgolion mae hyn yn golygu:

- Dysgu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol myfyrwyr ac yn eu paratoi ar gyfer y cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd ac mae'n rhaid iddo hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

- Darparu mannau diogel lle gall myfyrwyr ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys terfysgaeth a syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg terfysgaeth a dysgu sut i herio'r syniadau hyn

- Bod yn ystyriol o'u dyletswyddau presennol i atal gwthio syniadau gwleidyddol a sicrhau bod materion gwleidyddol yn cael eu cyflwyno'n gytbwys

- Amddiffyn myfyrwyr rhag eithafiaeth a'r risg o radicaleiddio yn yr un modd ag y maent yn eu gwarchod rhag ffurfiau eraill o niwed a chamdriniaeth.

Dyma un elfen o fewn ein trefniadau cyffredinol yn yr ysgol i ddiogelu a hyrwyddo lles yr holl blant yn unol â'n dyletswyddau statudol. Mae copi o'n polisi atal ar gael ar wefan yr ysgol a gwefan Cyngor Sir Ddinbych yn yr adran ar addysg.

### Y Ddyletswydd Prevent – Beth i'w wneud os oes gennych chi bryder

Os oes gan aelod o staff bryder am unigolyn neu deulu penodol fe ddylid dilyn gweithdrefnau diogelu arferol eich ysgol, gan gynnwys trafod y pryder Prevent gyda'ch arweinydd diogelu dynodedig yn yr ysgol a gwneud atgyfeiriad at dimau atgyfeirio gofal cymdeithasol plant neu oedolion eich awdurdod lleol.

Fe'ch cynghorir hefyd i gysylltu â Swyddog Prevent Heddlu Gogledd Cymru a all siarad â chi yn gyfrinachol ynglŷn ag unrhyw bryderon a'ch helpu i gael mynediad i gymorth a chyngor.

## 8. Gweithdrefnau

Byddwn yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 sydd wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd Diogelu Plant Lleol Gogledd Cymru. Fe ellir lawrlwytho Gweithdrefnau Diogelu Cymru fel Ap y gall staff ysgol gael mynediad ato'n fwy cyfleus.

Gweler y Ddolen isod: [https://www.diogelu.cymru/](https://www.diogelu.cymru/)

Os oes angen atgyfeiriad yna cliciwch y ddolen isod.

https://www.denbighshire.gov.uk/cy/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/tim-integredig-teuluoedd-lleol.aspx

Fe fyddwn yn ystyried y cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol a amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 (Geirfa)

- Camfanteisio ar Blant, Camfanteisio'n Droseddol, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Mae Plentyn sydd Mewn Perygl yn disgrifio unigolyn o dan 18 oed sy'n profi neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed
- Cam-drin Domestig a Thrais
- Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- Masnachu
- Trais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

Fe fyddwn hefyd wedi ystyried canllawiau gweithdrefnol unigol ar:

- Y Canllawiau Prevent – Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (Dyletswydd Statudol ysgolion)
- Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant a Phobl Ifanc sydd ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches

Dylid caniatáu i bob plentyn sy'n cael eu cyfweld fel rhan o unrhyw ymchwiliad diogelu, fynegi eu safbwyntiau ynglŷn â phwy fydd yr oedolyn priodol mewn sefyllfa cyfweliad (os o gwbl). Rhaid ceisio cyngor gan Borth y Gwasanaeth Plant o ran cyfranogiad priodol y teulu neu staff ysgol o ran presenoldeb mewn unrhyw gyfweliad gyda'r plentyn neu'r person ifanc.

## Cyfarfod Strategaeth Gweithwyr Proffesiynol - Gall ysgolion drefnu hyn

Pwrpas cyfarfod strategaeth yw rhannu a thrafod yn fanwl yr holl wybodaeth sydd gan yr ysgol yn ymwneud â natur eich pryderon a rhannu safbwyntiau a phryderon am gefnogaeth gwasanaethau gyda theulu.

**Sylwer**

**Nid yw cyfarfod strategaeth yn cael ei ddefnyddio yn lle gwneud yr atgyfeiriadau priodol i'r gwasanaethau plant am blentyn.**

**Bwriad y broses hon yw ymdrin ag achosion lle mae tystiolaeth y gallai gweithio gyda'n gilydd yn well ar draws y gwasanaethau fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan yr ysgol.**

**Gallai'r strategaeth a bennir gan ysgol o bosibl leihau'r amser a'r adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio i gysylltu ag asiantaethau unigol am gyngor a chefnogaeth ac i roi diweddariadau ar ddisgybl, drwy ddarparu cynllun cydlynol y gallai'r ysgol, asiantaethau a'r teulu gytuno arno er lles gorau'r plentyn.**

## 9. Cefnogaeth

Dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 newydd, mae gan ysgolion ddyletswydd i asesu a chefnogi'r plentyn yn nhermau cryfderau a gwendidau o ran cadw'r plentyn yn ddiogel.

Gall plant sy'n cael eu cam-drin neu sy'n dyst i drais ei chael yn anodd i ddatblygu ymdeimlad o hunanwerth ac i edrych ar y byd fel lle caredig ac ystyrlon. Fe allant deimlo'n aneffeithiol, teimlo cywilydd a rhyw ymdeimlad o hunan-feio a gallant gael eu heffeithio'n fawr.

Efallai mai'r ysgol fydd yr unig elfen gadarn, ddiogel a chyson ym mywydau plant mewn perygl. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol a herfeiddiol neu gallant fynd i'w cragen.

Mae'n rhaid i'r ysgol gefnogi'r disgybl drwy gynllun diogelwch sydd wedi'i ddatblygu'n glir ac yn cael ei ddeall gan yr holl bartïon a dylid cofnodi'r camau gweithredu pendant. Mae hyn yn cynnwys:

- Y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant gyda chyswllt a chefnogaeth gan y gwasanaethau comisiynu priodol.

- Bydd ethos yr ysgol yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel ac yn rhoi ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi i'r disgyblion

- Nod polisi ymddygiad yr ysgol yw cefnogi disgyblion diamddiffyn yn yr ysgol. Bydd pob aelod o staff yn cytuno ar ddull gweithredu cyson, sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn ond nad yw'n niweidio ymdeimlad o hunanwerth y disgybl.
- Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhywfaint o ymddygiad yn annerbyniol, ond ei fod/bod yn cael eu gwerthfawrogi ac nad oes bai arnynt am unrhyw gamdriniaeth sydd wedi digwydd.

- Y cyswllt gydag asiantaethau perthnasol eraill. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau cefnogi eraill fel y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Gwasanaethau Cefnogi Ymddygiad, y Gwasanaeth Lles Addysg a'r Gwasanaeth Eiriolaeth.

- Cadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Plant cyn gynted ag y bydd yna bryder.

**Pan fydd disgybl ar y gofrestr Amddiffyn Plant yn gadael yr ysgol, bydd rhaid i'r ysgol drosglwyddo'r ffeil wybodaeth diogelu/amddiffyn plant i'r ysgol newydd ar unwaith a hysbysu Pennaeth yr ysgol newydd, a'r Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig yn y Gwasanaethau Plant. Mae'n rhaid anfon unrhyw ffeil ddiogelu ar blentyn ar wahân i ffeil ysgol y plentyn i sicrhau cyfrinachedd a marcio'r ffeil ddiogelu at sylw Pennaeth yr ysgol newydd. Mae dolen Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn amlinellu cyfrifoldebau'r sefydliad o ran rhannu gwybodaeth sensitif.[www.waspi.org/](www.waspi.org/)**

## 10. Plant ag Anghenion Arbennig / Ychwanegol (ADY)

Yn ystadegol, mae plant ag anawsterau ymddygiadol ac anableddau yn fwyaf agored i gamdriniaeth. Bydd staff yr ysgol sy’n delio â phlant ag anableddau amrywiol, nam ar y synhwyrau a/neu broblemau emosiynol ac ymddygiadol yn arbennig o sensitif i arwyddion o gamdriniaeth.

Mae angen i staff yr ysgol fod â lefel uchel o ymwybyddiaeth gyda phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a hyrwyddo diwylliant lle gall plant wneud eu dymuniadau a'u teimladau yn hysbys o ran eu gofal a'u triniaeth a lle nad ydynt yn profi anfantais o’i gymharu â’u cyfoedion nad oes ganddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Sicrhau bod yr holl blant ag ADY yn gwybod sut i godi pryderon os ydynt yn poeni neu’n flin ynghylch rhywbeth a rhoi mynediad iddynt i amrywiaeth o oedolion y gallant gyfathrebu â nhw. Dylai plant ag anawsterau cyfathrebu gael modd o gael eu clywed bob amser.

Dylid caniatáu i bob plentyn gydag ADY, sy'n cael eu cyfweld fel rhan o unrhyw ymchwiliad diogelu, fynegi eu safbwyntiau ynglŷn â phwy fydd yr oedolyn priodol mewn sefyllfa cyfweliad. Rhaid ceisio cyngor gan Borth y Gwasanaeth Plant o ran cyfranogiad priodol y teulu neu staff ysgol o ran presenoldeb mewn unrhyw gyfweliad gyda’r plentyn neu'r person ifanc.

## 11. Staff Cymorth

Gall staff sy'n gweithio yn yr ysgol, sydd wedi ymwneud â’r plentyn sydd wedi dioddef niwed, neu sy’n ymddangos yn debygol o ddioddef niwed, deimlo fod y sefyllfa yn un sy’n peri gofid ac/neu yn anodd yn broffesiynol ac yn foesol. Bydd staff yn cael eu cefnogi - drwy ddarparu cyfle ac amser i drafod eu pryderon naill ai gyda'u goruchwyliwr, a all o bosibl ystyried cefnogaeth bellach gan yr ysgol, neu gan Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol, sydd â mynediad at gefnogaeth sydd ar gael yn yr ysgol a thrwy eu hawdurdod lleol, neu wybodaeth amdanynt.

Mae Adran 5 o'r polisi hwn yn darparu enghreifftiau eraill o’r gefnogaeth y bydd yr ysgol yn ei darparu.

Cyfrifoldeb Pennaeth yr ysgol yw goruchwyliaeth / cefnogaeth broffesiynol yr Arweinydd Diogelu Dynodedig. Mae’r Awdurdod Lleol wedi rhoi dogfen ganllawiau Fframwaith Cefnogi ar waith sydd wedi ei hysgrifennu ar y cyd gyda'r penaethiaid i gynorthwyo ysgolion yn y maes allweddol hwn o gefnogaeth i staff sy’n ymwneud â diogelu ac mae ar gael ar Sharepoint Hwb.

## 12. Honiadau a wneir yn erbyn Aelodau o Staff

Bydd yr ysgol yn dilyn Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 009/2014 Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.

Bydd y Pennaeth a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig yn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau mewn perthynas â gweithdrefnau sy'n ofynnol pan wneir honiad yn erbyn gweithiwr proffesiynol ac yn benodol:

- Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Rhif: 009/2014 - Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill

- Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Rhif: 002/2020 Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol

- Cod Ymddygiad Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

Mae'r canllawiau uchod i'w gweld yma: https://www.llyw.cymru Fe fydd gan y Pennaeth a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig eu copïau unigol eu hunain o Gylchlythyrau: 009/2014 a Chylchlythyr: 002/2020 a restrir uchod a byddant wedi darllen a deall y canllawiau'n llawn.

Mae'n rhaid i bob aelod o staff sicrhau eu bod yn rhoi gwybod yn syth i'r Pennaeth neu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig am unrhyw honiad yn ymwneud ag oedolyn sy'n gweithio gyda phlant; bydd hyn yn cynnwys holl staff yr ysgol, gwirfoddolwyr, llywodraethwyr, gweithwyr achlysurol neu gontractwyr a'r staff hynny nad ydynt ar safle'r ysgol ond sy'n dod i gysylltiad â phlant h.y. y rhai sy'n cludo plant i/o'r ysgol, hebryngwyr croesfannau ysgol ac ati.

**Fe ddylid dwyn honiadau yn erbyn aelodau o staff i sylw'r Pennaeth** (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr a Phennaeth y Gwasanaethau Addysg) ar unwaith. Os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth, yna dylid hysbysu Cadeirydd y Llywodraethwyr, a ddylai yn ei dro hysbysu Pennaeth y Gwasanaethau Addysg ar unwaith. Er hwylustod, bydd yr unigolyn hwn yn cael ei adnabod fel y 'Rheolwr Achos'. (Os adroddir am yr honiadau yn erbyn aelod o staff i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig, yna mae'n rhaid hysbysu'r Pennaeth ar unwaith.)

Y Pennaeth (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr yn achos y Pennaeth) fel y Rheolwr Achos, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am unrhyw honiad diogelu.

Yn gyntaf, dylai'r Rheolwr Achos drafod yr honiad ar unwaith gyda Swyddog Diogelu Addysg yr Awdurdod Lleol o fewn yr adran Addysg a fydd hefyd yn cefnogi'r ysgol gyda sut i gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru a restrir uchod. Dylid hysbysu Swyddog Diogelu Addysg yr Awdurdod Lleol am **bob** honiad sy'n dod i sylw ysgol ac sy'n ymddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a amlinellir uchod, fel y gallant ymgynghori â Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol o fewn y Gwasanaethau Plant a'r heddlu, fel y bo'n briodol.

Cyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am ymdrin â materion disgyblu staff yn yr holl ysgolion a gynhelir ac fe ddylent gyfeirio at Ganllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Rhif: 002/2020 Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol

https://www.llyw.cymru/gweithdrefnau-disgyblu-diswyddo-staff-ysgol?_gl=1*udx9ej*_ga*MTY5NTU5MjM3MS4xNzI3MDgxODY3*_ga_L1471V4N02*MTcyNzA4MTg2Ni4xLjAuMTcyNzA4MTg2Ni4wLjAuMA..

## 13. Recriwtio Mwy Diogel

Bydd yr ysgol yn cadw at Gylchlythyr Llywodraeth Cymru: 283/2022 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Pennod 5Bydd gofyn i bob aelod o staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr fod â thystysgrif datgeliad gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Bydd yr ysgol yn cynnal cofnod o ddyddiadau datgeliad GDG yr holl staff ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hadnewyddu mewn pryd.

Cedwir cofnod ysgrifenedig o'r holl staff cyflenwi dyddiol, gwirfoddolwyr a chontractwyr gan restru'n glir lle mae datgeliad y GDG ar gael neu bydd asesiad risg yn cael ei gynnal yn lle datgeliad GDG.

Y Pennaeth sydd â'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod pob unigolyn sy'n mynychu safle'r ysgol yn cael asesiad risg priodol mewn amgylchiadau lle nad oes datgeliadau GDG ar gael.

Bydd yr ysgol hefyd yn cadw at arferion recriwtio mwy diogel CSDd o ran derbyn a gwirio geirdaon pobl cyn eu penodi, y manylion am yr unigolyn, pecynnau gwybodaeth i ymgeiswyr, swydd-ddisgrifiadau, cyfweliadau a hyfforddiant sefydlu.

Bydd yr ysgol yn cadw at Weithdrefnau Recriwtio'r Awdurdod Lleol a Chanllawiau Recriwtio Mwy Diogel Llywodraeth Cymru.

## 14. Diogelwch Safle'r Ysgol

Mae'r ysgol yn lle diogel i ddisgyblion ddysgu a datblygu sgiliau dysgu a chymdeithasol. Mae diogelwch corfforol y disgyblion pan fyddant ar safle'r ysgol yn hollbwysig. Mae mynediad at safle'r ysgol yn cael ei fonitro a'i adolygu'n fanwl yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol ar iechyd a diogelwch ar safle'r ysgol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys archwiliad rheolaidd wedi'i gynllunio o safle'r ysgol i sicrhau nad oes unrhyw feysydd yn ymofyn sylw.

Mae'n rhaid i archwiliad diogelu o safle'r ysgol gael ei gynnal yn flynyddol a'i drafod a'i gofnodi'n ffurfiol drwy gorff llywodraethu'r ysgol. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol ar gael i'w adolygu ar gais gan y Pennaeth.

Mae'n ofynnol i bob ymwelydd dyddiol a defnyddwyr safle'r ysgol lofnodi pan fyddant yn mynd i mewn i eiddo'r ysgol ac yn mynd allan. Byddant yn rhestru'n glir y cwmni maent yn gweithio iddo a'r rheswm dros ymweld neu ddefnyddio safle'r ysgol.

Caiff pob defnyddiwr o safle'r ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol ei wirio gan y pennaeth i sicrhau eu bod yn addas i fod ar y safle. Rhaid i'r pennaeth wneud hyn naill ai trwy edrych ar ddatgeliad GDG y defnyddiwr neu drwy wirio gyda'r asiantaeth i weld neu wirio bod GDG cyfredol yn bodoli ar gyfer y staff.

Os nad yw'r un o'r opsiynau uchod ar gael rhaid cwblhau asesiad risg. Mae'n rhaid i'r asesiad risg hwn restru'n glir y mesurau rheoli a ddefnyddir gan yr ysgol i ddiogelu'r plant. Bydd hyn yn cynnwys yr holl weithgareddau y tu allan i oriau'r ysgol gan gynnwys gyda'r nos, penwythnosau a chyfnodau gwyliau fel y cytunir gan y Pennaeth. Gellir defnyddio rhestr o gontractwyr dyddiol fel sydd wedi ei hatodi. **Atodiad G**

## 15. Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC)

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC) yn gorff statudol sydd yn cydlynu, monitro a herio ei asiantaethau partner i ddiogelu plant yng Ngogledd Cymru. Amcanion BDGC yw DIOGELU plant yn ei ardal sydd yn profi neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu unrhyw niwed arall ac ATAL plant sydd yn profi neu mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgeulustod neu unrhyw niwed arall.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn bartner statudol i'r Bwrdd hwn. Cyfeirir at aelodau'r Bwrdd fel partneriaid perthnasol o dan Ran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o waith y Bwrdd Diogelu. Dylai pob ysgol gael gwybodaeth wedi'i diweddaru trwy danysgrifio i wefan BDGC.

https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/gweithdrefnau-diogelu-cymru-yn-dod-yn-fuan/

Anogir ysgolion i fynychu digwyddiadau a hyfforddiant gan BDGC. Hefyd caiff Hyfforddiant Ar-lein ei gynnig gan BDGC.

Efallai y bydd angen i ysgolion fod yn rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant. Bydd ysgolion yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant a'r Adran Addysg mewn amgylchiadau o'r fath i sicrhau yr ymatebir i geisiadau am wybodaeth a dogfennaeth yn amserol. Efallai bydd angen i ysgolion fynychu Digwyddiadau Dysgu yn ystod y broses adolygu. Bydd staff yr ysgol yn cael cymorth ac arweiniad gan yr adran Addysg a Gwasanaethau Plant er mwyn cymryd rhan yn llawn yn y digwyddiadau hyn.

## 16. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael y budd mwyaf posibl o'u haddysg waeth beth fo'u cefndir ethnig, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, cred grefyddol neu ddiffyg cred, defnydd o Iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am ddibynyddion neu unrhyw reswm arall na ellir ei gyfiawnhau.

Er mwyn gwneud penderfyniadau sensitif a deallus am anghenion plant a gallu rhieni i ymateb i anghenion eu plant, mae'n bwysig i staff yr ysgol fod yn sensitif ynghylch gwahanol batrymau teuluoedd, ffyrdd o fyw a phatrymau magu plant sy'n amrywio ar draws gwahanol grwpiau hil, ethnig a diwylliannol.

## 17. Cyfrinachedd a Rhannu Gwybodaeth

Mae'r ysgol yn cydnabod bod pob mater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a diogelu yn gyfrinachol, fodd bynnag mae cydbwysedd rhwng amddiffyn plant a'r hawl i breifatrwydd, fel yr amlinellir isod.

Dim ond i aelodau eraill o staff sydd angen gwybod y bydd y Pennaeth a/neu’r Swyddog Diogelu Plant yn datgelu unrhyw wybodaeth am ddisgybl. Mae cyfrifoldeb proffesiynol dros rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant.

Bydd staff yn deall na allant addo i blentyn y byddant yn cadw cyfrinachau, a allai gyfaddawdu diogelwch y plentyn neu ei les.

Er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gadarn, mae angen deall egwyddorion cyffredinol rhannu gwybodaeth sy’n adnabyddadwy i blentyn a/neu bobl ifanc neu eu rhieni/gofalwyr. Rhaid i ddiogelwch a lles plentyn neu unigolyn ifanc fod yr ystyriaeth gyntaf wrth wneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth amdanynt.

Mae'n rhaid cael sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth a phwrpas cyfreithlon dros wneud hynny. Wrth ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol, bydd angen i ni fod yn fodlon bod yna naill ai:

- ymrwymiad statudol dros ddatgelu
- caniatâd wedi’i fynegi neu ei awgrymu gan yr unigolion dan sylw neu
- budd cyhoeddus tra phwysig i ddatgelu'r wybodaeth

Nid yw’r Ddeddf Diogelu Data yn rhwystr i rannu gwybodaeth, ond mae’n darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol ynghylch pobl sy'n fyw yn cael ei rhannu'n briodol.

Hyd nes y bydd protocolau rhannu gwybodaeth yn cael eu datblygu rhwng asiantaethau, bydd pob aelod o staff yn ceisio cyngor gan y Swyddog Diogelu Plant a/neu'r Pennaeth mewn perthynas â rhannu unrhyw wybodaeth.

Fe fydd y Pennaeth a’r Swyddog Diogelu Plant yn gwbl ymwybodol o’r canllawiau yn ymwneud â’r Ddeddf Diogelu Data a’r canllawiau yn ymwneud â rhannu gwybodaeth:

- Fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) http://www.waspi.org/

Er hwylustod gellir gweld y Saith Rheol Aur ar gyfer Rhannu Gwybodaeth yn **Atodiad H**.

## 18. Polisïau Perthnasol (Rhaid dilyn pob polisi ochr yn ochr â'r polisi hwn)

Un o delerau'r polisi hwn yw bod y dogfennau hyn yn cael eu darllen ac y cydymffurfir â hwy.

Mae hefyd yn un o delerau’r polisi hwn bod asesiadau risg yn cael eu dogfennu a’u storio’n ddiogel mewn perthynas ag unrhyw weithgareddau neu unigolion fel sy'n ofynnol yn y polisïau canlynol.

## 18.1 Awdurdod Lleol Polisïau'r Ysgol

DS. Bydd angen i ysgolion sicrhau eu bod yn dyfynnu teitl llawn y polisïau ysgol ar gyfer yr adran hon. Mae cyngor a chanllawiau ar bolisïau enghreifftiol ar gael yn y lle cyntaf trwy'r Swyddog Diogelu Addysg.

- Polisi Presenoldeb
- Polisi Amserlen Lai
- Ymddygiad a Gwrth Fwlio
- Fframwaith Rhwng Cyfoedion mae ysgolion wedi'i fabwysiadu
- Caniatâd ar gyfer Creu Delweddau Digidol neu ar gyfer y Cyfryngau
- Tynnu lluniau a Gwneud fideos
- Y ddyletswydd PREVENT
- Goruchwylio gweithgaredd gyda Phlant nad yw ar safle EVOLVE ysgol
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelwch Safle
- Sefydlu gwirfoddolwyr
- Cwricwlwm
- Diogelwch ar y Rhyngrwyd.
- Cyfleoedd Cyfartal
- Rhannu Pryderon

## 19. Cydymffurfio â'r Polisi hwn

Mae'n rhaid i bob aelod o staff ddarllen a deall y polisi hwn, gan gynnwys yr atodiadau a pholisïau cysylltiedig sy'n cyfateb i'w rolau a chyfrifoldebau unigol. Yna mae'n rhaid i'r holl staff brintio'u henw a rhoi eu llofnod yn y tabl isod.

Mae'n rhaid i bob aelod newydd o staff gydymffurfio â'r un drefn cyn gynted â phosibl.

## Atodiad A - Diffiniadau o Ddiogelu

## Diffiniad o Ddiogelu

### Mae Diogelu ac Amddiffyn yn gyfrifoldeb i bawb

### Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019)

Mae Diogelu yn golygu amddiffyn plant rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed, ac addysgu'r bobl o'u hamgylch nhw i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Diffinnir diogelu a hybu lles plant sy'n mynychu ysgol at ddibenion y polisi hwn fel a ganlyn:

- amddiffyn plant rhag y risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed;
- atal niwed i iechyd neu ddatblygiad plant;
- sicrhau bod plant yn cael eu magu mewn amgylchiadau sy'n gyson â darpariaeth o ofal diogel ac effeithiol; a
- cymryd camau gweithredu i alluogi pob plentyn i gyflawni'r canlyniadau gorau

**Adran 175 Deddf Addysg 2022 ac Adran 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

## Diffiniad o Amddiffyn Plant

Mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgaredd, sy'n cael ei wneud i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod

## Atodiad B – Categorïau o Berygl o Niwed

## Categorïau

**Bydd y categori, neu gyfuniad o gategorïau, a ddefnyddir wrth gofrestru yn dangos i'r rhai sy'n defnyddio'r gofrestr beth yw'r prif bryderon ar adeg cofrestru.**

(Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019)

Caiff plentyn ei gam-drin neu ei esgeuluso pan fydd rhywun yn peri niwed, neu'n methu â gweithredu i atal niwed iddo. Gall plentyn ddioddef camdriniaeth mewn amgylchedd teulu neu mewn amgylchedd sefydliadol neu gymunedol; gan bobl y maen nhw'n eu hadnabod, neu yn fwy anaml, gan ddieithryn. Gall plentyn neu berson ifanc **hyd at 18 oed** ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod a bydd angen amddiffyniad arnynt drwy gynllun amddiffyn plant rhyngasiantaethol.

## Cam-drin Corfforol

Gall gynnwys taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, atal rhywun yn ormodol neu gosbau amhriodol.

## Cam-drin Emosiynol a Seicolegol

Bygythiadau o niwed neu adael plentyn, rheolaeth orfodol, codi cywilydd arnynt, cam-drin geiriol neu hiliol, arwahanrwydd neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, bod yn dyst i gam-drin eraill.

## Cam-drin Rhywiol

Gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd ai peidio. Gall hyn gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol, gweithgarwch di-gyffwrdd, megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, deunydd pornograffig neu wylio gweithgarwch rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol.

## Ariannol

**Bydd y categori hwn yn llai amlwg i blentyn, ond gallai dangosyddion gynnwys:**

Peidio â diwallu eu hanghenion o ran gofal a chefnogaeth a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol neu:

Gwynion bod eiddo personol yn mynd ar goll.

## Esgeulustod

Methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol a/neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at amhariad i iechyd neu ddatblygiad.

## Atodiad C - Dangosyddion Niwed

## Dangosyddion Niwed

## 1 Cam-drin Corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch mewn plentyn neu'n cymell hynny'n fwriadol.

## Dangosyddion yn y Plentyn

**Cleisio -** Yn aml mae'n bosibl gwahaniaethu rhwng cleisiau damweiniol a chleisiau a achoswyd. Rhaid ystyried y canlynol fel cleisiau annamweiniol oni bai bod tystiolaeth neu esboniad digonol yn cael ei roi:

- Cleisio yn y geg neu o'i chwmpas
- Dwy lygad wedi cleisio ar yr un pryd, heb glais ar y talcen (anaml bydd hyn yn ddamweiniol, er y gall un llygad wedi cleisio fod yn ddamweiniol neu wedi'i achosi gan gamdriniaeth)
- Cleisiau ailadroddus neu lawer o gleisiau ar y pen neu ar lefydd a fyddai'n annhebygol o gael eu hanafu'n ddamweiniol, er enghraifft, y cefn, y geg, boch, clust, y stumog, y frest, o dan y fraich, y gwddf, organau rhywiol ac ardaloedd rhefrol

- Amrywiad mewn lliw, o bosib yn dangos anafiadau a achoswyd ar wahanol adegau
- Amlinelliad o wrthrych a ddefnyddiwyd, e.e. marciau belt, printiau llaw neu frwsh gwallt
- Cleisiau llinellol ar unrhyw ardal, yn enwedig ar y pen-ôl, cefn neu'r wyneb
- Cleisiau neu rwygiadau o amgylch, neu y tu ôl, i labed y clustiau sy'n dangos anaf drwy eu tynnu neu eu troi
- Cleisio o amgylch yr wyneb
- Marciau gafael ar ran uchaf y breichiau, blaen y fraich neu goes
- Gwaedlifau Petechae (smotiau gwaed o dan y croen), sy'n gysylltiedig yn aml â slapio, mygu, crogi a gwasgu

**Toriadau -** Gall torri esgyrn achosi poen, chwydd ac afliwiad dros esgyrn neu gymal. Mae'n annhebygol y bydd plentyn wedi torri asgwrn heb i'r gofalwyr fod yn ymwybodol o drallod y plentyn. Os nad yw'r plentyn yn defnyddio braich neu goes, os oes ganddo boen wrth symud a/neu fod coes neu fraich wedi chwyddo, efallai ei fod wedi torri asgwrn. Mae sail i bryderu os:

- Yw'r hanes a ddarperir yn amwys, ddim yn bodoli neu'n anghyson
- Oes hen doriadau asgwrn cysylltiedig
- Ceisir sylw meddygol ar ôl cyfnod o oedi pan fydd y toriad wedi achosi symptomau fel chwydd, poen neu golli symudiad

Achosir toriadau i asennau o ganlyniad i drawma mawr fel mewn damwain ffordd, anaf ysgwyd difrifol neu anaf uniongyrchol megis cic yn unig.

Mae toriadau i'r benglog yn anghyffredin mewn cwympiadau cyffredin, h.y. o dair troedfedd neu lai. Mae tyst i'r anaf fel arfer, bydd y plentyn yn crio, ac os bydd wedi torri asgwrn, mae'n debygol y bydd chwydd yn datblygu ar y benglog dros 2 i 3 awr. Dylid cymryd pob toriad i'r benglog o ddifrif.

**Anafiadau i'r geg -** Mae rhwygiadau i'r frenulum (y meinwe sy'n atodi'r wefus uchaf i'r gwm) yn aml yn arwydd o orfodi bwyd ar fabi neu blentyn ag anabledd. Yn aml bydd cleisiau marciau bysedd ar y bochau ac o amgylch y geg. Yn anaml, mae'n bosibl fod yna grafiadau ar y daflod hefyd.

**Gwenwyno -** Mae achosion o lyncu tabledi neu wenwyn domestig mewn plant o dan 5 oed fel arfer o ganlyniad i esgeulustod rhiant neu ofalwr, ond gall fod yn hunan-niwed, hyd yn oed mewn plant ifanc.

**Salwch wedi'i Ffugio neu wedi ei Achosi** - Gall gweithwyr proffesiynol fod yn bryderus am y posibilrwydd o blentyn yn dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i salwch yn cael ei ffugio neu yn cael ei achosi gan ei ofalwr. Pryderon posibl yw:

- Anghysondeb rhwng cyflyrau meddygol a adroddwyd amdanynt ac a arsylwir, megis ffitiau
- Presenoldeb mewn amryw o ysbytai, mewn gwahanol ardaloedd
- Datblygu anhwylderau bwydo/bwyta, o ganlyniad i ryngweithiadau bwydo annymunol
- Y plentyn yn datblygu agweddau annormal tuag at ei iechyd ei hun
- Methiant anorganig i ffynnu – pan nad yw plentyn yn magu pwysau nac yn tyfu ac nad oes achos meddygol sylfaenol
- Oedi o ran datblygiad lleferydd, iaith neu symudedd

- Ddim yn hoffi cyswllt corfforol agos
- Anhwylderau ymlyniad
- Hunan-barch isel
- Perthnasoedd o ansawdd gwael gyda chyfoedion neu ddiffyg perthnasoedd am fod rhyngweithio cymdeithasol wedi'i gyfyngu
- Presenoldeb gwael yn yr ysgol a thangyflawni

**Marciau Brathu -** Gall marciau brathu adael argraffiadau clir o'r dannedd yn fuan ar ôl i'r anaf ddigwydd. Yna bydd y siâp yn dod yn glais mwy diffiwsiedig mewn siâp modrwy, hirgrwn neu hanner cylch. Mae'r rhai dros 3cm mewn diamedr yn fwy tebygol o fod wedi'u hachosi gan oedolyn neu blentyn hŷn. Dylid ceisio barn feddygol/deintyddol, yn ddelfrydol o fewn y 24 awr gyntaf, os oes yna unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad y brathiad.

**Llosgiadau a Sgaldiadau -** Gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng llosgiadau a sgaldiadau damweiniol ac annamweiniol. Sgaldiadau yw'r anaf llosgi bwriadol mwyaf cyffredin a gofnodir. Gall unrhyw losg ag amlinelliad clir fod yn amheus, e.e. llosgiadau cylchol o sigaréts, llosgiadau llinellol o rodenni metel poeth neu elfennau tân trydanol, llosgiadau o'r un dyfnder dros ardal fawr o'r corff, sgaldiadau sydd â llinell sy'n dangos trochi neu hylif wedi'i dywallt. Gall hen greithiau fod yn arwydd o losgiadau/sgaldiadau blaenorol na chawsant eu trin yn briodol neu na chafwyd eglurhad digonol ohonynt. Mae sgaldiadau i ben-ôl plentyn, yn enwedig yn absenoldeb llosgiadau i'r traed, yn arwydd o drochi i mewn i hylif neu fath poeth.

Mae'r pwyntiau canlynol hefyd yn werth eu cofio:

- Mae oedolyn cyfrifol yn gwirio tymheredd y bath cyn i'r plentyn fynd i mewn iddo.
- Mae plentyn yn annhebygol o eistedd i lawr yn wirfoddol mewn bath poeth, ac ni all sgaldio ei ben-ôl yn ddamweiniol heb sgaldio ei draed hefyd.
- Bydd plentyn a fydd yn mynd i ddŵr sy'n rhy boeth o'i wirfodd yn gwneud ei orau i ddod allan, a bydd marciau sblasio.

**Creithiau -** Gall nifer fawr o greithiau neu greithiau o wahanol feintiau neu oedrannau, neu ar wahanol rannau o'r corff, neu mewn siapiau anarferol, awgrymu camdriniaeth.

## Cyflwyniad emosiynol/ymddygiadol

- Gwrthod trafod anafiadau
- Derbyn cosb sy'n ymddangos yn ormodol
- Ofn y cysylltir â'r rhieni ac ofn mynd yn ôl adref
- Tynnu'n ôl o gyswllt corfforol
- Breichiau a choesau'n cael eu gorchuddio mewn tywydd poeth
- Ofn cymorth meddygol
- Ymddygiad ymosodol tuag at eraill
- Yn absennol o'r ysgol yn aml
- Esboniad sydd yn anghyson ag anaf
- Nifer o esboniadau gwahanol yn cael eu rhoi ar gyfer anaf

## Dangosyddion yn y Rhiant

- Gallant fod ag anafiadau eu hunain sy'n awgrymu trais domestig

- Ddim yn ceisio cymorth meddygol/oedi anesboniadwy o ran ceisio triniaeth
- Amharod i roi gwybodaeth neu sôn am anafiadau blaenorol
- Absennol heb reswm da pan fydd angen triniaeth ar eu plentyn
- Dim diddordeb neu ddim yn poeni am ddamwain neu anaf
- Yn ymosodol tuag at y plentyn neu eraill
- Ymdrechion i roi meddyginiaeth heb awdurdod
- Ceisio tynnu'r plentyn i'w salwch eu hunain
- Hanes o gam-drin yn ystod plentyndod, hunan niweidio, honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol
- Gall rhiant/gofalwr gymryd rhan yn ormodol mewn profion meddygol, cymryd tymheredd a mesur hylifau corfforol
- Yn ymwneud yn ddwys â'u plant, byth yn cymryd seibiant, nac yn caniatáu i unrhyw un arall ymgymryd â gofal eu plentyn
- Gallant ymddangos yn anarferol o bryderus am ganlyniadau ymchwiliadau a allai ddangos salwch corfforol yn y plentyn
- Fe all anawsterau rhianta ehangach fod yn gysylltiedig (neu mae'n bosibl nad yw'n gysylltiedig) â'r math hwn o gamdriniaeth
- Mae gan y rhiant/gofalwr euogfarnau am droseddau treisgar

### Dangosyddion yn y teulu/amgylchedd

- Wedi'u gwthio i'r cyrion neu eu harwahanu gan y gymuned
- Hanes o iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais yn y cartref
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, salwch neu nifer o lawdriniaethau yn achos y rhieni a/neu frodyr a chwiorydd
- Hanes o gam-drin yn ystod plentyndod, hunan niweidio, honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosbedigaeth gorfforol

## 2. Cam-drin Emosiynol

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn barhaus yn emosiynol nes achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall hyn gynnwys cyfleu i blant eu bod yn ddi-werth neu fod neb yn eu caru, neu greu'r argraff nad ydynt yn ddigon da neu ddim ond yn werth rhywbeth os ydynt yn bodloni anghenion rhywun arall.

Gall gynnwys peidio â rhoi cyfleoedd i blentyn i fynegi eu safbwyntiau, eu distewi'n fwriadol neu 'wneud hwyl' o'r hyn maent yn ei ddweud neu sut maent yn cyfathrebu. Gall gynnwys rhoi disgwyliadau sy'n amhriodol ar blant o safbwynt oed neu ddatblygiad. Gall y rhain gynnwys rhyngweithiadau sydd y tu hwnt i allu datblygiadol y plentyn, yn ogystal â goramddiffyn a chyfyngu ar archwiliad a dysgu plentyn, neu atal y plentyn rhag cymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol arferol. Gall gynnwys gweld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin. Gall gynnwys bwlio difrifol (gan gynnwys seiber-fwlio), achosi i blant deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, neu gamfanteisio ar blant neu eu llygru. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol yn ymwneud â phob math o gam-drin plentyn, er fe allai ddigwydd ar ei ben ei hun.

## Dangosyddion yn y Plentyn

- Oedi o ran datblygiad
- Ymlyniad anarferol rhwng plentyn a rhiant/gofalwr, e.e. gorbryderus, annetholus neu dim ymlyniad
- Ymddygiad ymosodol tuag at eraill
- Plentyn wedi'i wneud yn fwch dihangol o fewn y teulu
- Gwyliadwrusrwydd dwys, yn enwedig mewn plant dan oed ysgol
- Hunan-barch isel a diffyg hyder
- Wedi encilio neu'n cael eu hystyried fel plentyn unig – anhawster uniaethu ag eraill
- Yn gorymateb i gamgymeriadau
- Ofni sefyllfaoedd newydd
- Ymatebion emosiynol amhriodol i sefyllfaoedd poenus
- Ymddygiad niwrotig (e.e. siglo, troelli gwallt, sugno bawd)
- Hunan-niweidio
- Ofn y cysylltir â rhieni
- Eithafion goddefedd neu ymddygiad ymosodol
- Camddefnyddio cyffuriau/sylweddau
- Rhedeg i ffwrdd yn barhaus
- Dwyn cymhellol
- Hunan-barch isel
- Difaterwch – agwedd ddi-hid
- Ynysiad cymdeithasol - nid yw'n ymuno â dim ac nid oes ganddo/ganddi lawer o ffrindiau
- Iselder, encilio
- Problemau ymddygiad, e.e. ymddygiad ymosodol, ceisio sylw, gorfywiogrwydd, rhychwant sylw gwael
- Hunan-barch isel, diffyg hyder, ofn, gofid, pryder
- Perthnasoedd gwael â chyfoedion, gan gynnwys ymddygiad encilgar neu ynysig

## Dangosyddion yn y Plentyn

- Gall cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl oedolion a chamddefnyddio sylweddau gan rieni fod yn nodweddion mewn teuluoedd lle mae plant yn agored i gamdriniaeth.
- Ymlyniad annormal i blentyn, e.e. rhy bryderus neu ddiffyg diddordeb yn y plentyn
- Yn gwneud un plentyn yn fwch dihangol o fewn y teulu
- Rhoi disgwyliadau amhriodol ar y plentyn, e.e. atal archwilio datblygiadol, neu broses ddysgu'r plentyn, neu atal rhyngweithio cymdeithasol arferol trwy fod yn rhy amddiffynnol
- Fe all anawsterau magu plant ehangach fod yn gysylltiedig (neu mae'n bosibl nad yw'n gysylltiedig) â'r math hwn o gamdriniaeth.

## Dangosyddion yn y Teulu/Amgylchedd

- Diffyg cefnogaeth gan deulu neu rwydwaith cymdeithasol
- Wedi'u gwthio i'r cyrion neu eu harwahanu gan y gymuned.
- Hanes o iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais yn y cartref.
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, salwch neu nifer o lawdriniaethau yn achos y

rhieni a/neu frodyr a chwiorydd yn y teulu
- Hanes o gam-drin yn ystod plentyndod, hunan niweidio, anhwylder somateiddio neu honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosbedigaeth gorfforol.

## 3. Esgeulustod

Esgeulustod yw methiant parhaus i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol y plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gam-drin sylweddau gan y fam. Pan y bydd plentyn wedi ei eni, gall esgeulustod gynnwys rhiant neu ofalwr yn methu â:

- Darparu bwyd a dillad digonol, lloches (gan gynnwys gwahardd o'r cartref neu droi cefn);
- Amddiffyn plentyn rhag niwed corfforol ac emosiynol neu berygl;
- Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys y defnydd o ofalwyr anghymwys); neu
- sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol
- gall hefyd gynnwys esgeuluso neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol y plentyn

### Dangosyddion yn y Plentyn - Ymddangosiad Corfforol

- Methu â ffynnu neu, mewn plant hŷn, taldra byr
- Dan bwysau
- Chwant bwyd yn aml
- Cyflwr budur, blêr
- Wedi gwisgo'n annigonol, dillad mewn cyflwr gwael
- Croen coch/piws brith, yn enwedig ar y dwylo a'r traed - gwelir hyn yn y gaeaf oherwydd oerfel
- Coesau a breichiau wedi chwyddo gyda briwiau sy'n araf yn gwella, fel arfer yn gysylltiedig ag anaf oer
- Chwant bwyd barus annormal
- Gwallt sych, tenau
- Heintiau dro ar ôl tro/heb eu trin neu gyflyrau'r croen, e.e. ecsema neu lau pen parhaus, clefyd crafu, dolur rhydd
- Cyflyrau iechyd neu feddygol heb eu rheoli/heb eu trin, gan gynnwys iechyd deintyddol gwael
- Damweiniau neu anafiadau aml

### **Dangosyddion yn y Plentyn** - Datblygiad

- Oedi cyffredinol, yn enwedig o ran lleferydd ac iaith
- Sgiliau cymdeithasol annigonol a chymdeithasu gwael

### Dangosyddion yn y Plentyn – Ymddangosiad Emosiynol / Ymddygiadol

- Anhwylderau ymlyniad

- Absenoldeb ymatebolrwydd cymdeithasol arferol
- Ymddygiad diwahân mewn perthnasoedd ag oedolion
- Anghenus yn emosiynol
- Dwyn cymhellol
- Blinder cyson
- Yn absennol o'r ysgol neu’n hwyr yn aml
- Diffyg hunan werth
- Tueddiadau dinistriol
- Yn ffynnu i ffwrdd o amgylchedd y cartref
- Ymddygiad ymosodol a byrbwyll
- Perthnasoedd anesmwyth â chyfoedion
- Ymddygiad hunan-niweidiol

## Dangosyddion yn y Rhiant

- Ymddangosiad budur, blêr
- Wedi gwisgo’n annigonol
- Sgiliau cymdeithasol annigonol a chymdeithasu gwael
- Ymlyniad annormal i’r plentyn, e.e. pryderus
- Hunan-barch isel a diffyg hyder
- Methu diwallu’r anghenion hanfodol sylfaenol, e.e. bwyd digonol, dillad, cynhesrwydd, hylendid
- Methu diwallu anghenion iechyd a meddygol y plentyn, e.e. iechyd y geg gwael, methu mynychu na chadw apwyntiadau gyda’r ymwelydd iechyd, meddyg teulu neu ysbyty, heb gofrestru gyda meddyg teulu, methu ceisio triniaeth feddygol briodol neu gydymffurfio â thriniaeth feddygol briodol, methu mynd i’r afael â chamddefnyddio sylweddau yn ystod beichiogrwydd
- Plentyn wedi’i adael gydag oedolion sydd wedi meddwi neu sy’n dreisgar
- Plentyn yn cael ei adael neu ei adael ar ei ben ei hun am gyfnodau gormodol
- Fe all anawsterau rhianta ehangach fod yn gysylltiedig (neu mae'n bosibl nad yw'n gysylltiedig) â'r math hwn o gamdriniaeth

## Dangosyddion yn y Teulu/Amgylchedd

- Hanes o esgeulustod yn y teulu
- Y teulu wedi eu gwthio i’r cyrion neu wedi eu hynysu gan y gymuned.
- Mae gan y teulu hanes o iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais yn y cartref.
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, salwch neu nifer o lawdriniaethau yn achos y rhieni a/neu frodyr a chwiorydd.  Y teulu â hanes o gam-drin yn ystod plentyndod, hunan niweidio, troi pryder yn symptomau corfforol, honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosb gorfforol.
- Amgylchedd peryglus yn y cartref, gan gynnwys methu â defnyddio offer diogelwch yn y cartref; perygl o ganlyniad i anifeiliaid.
- Amgylchedd y cartref mewn cyflwr gwael, e.e. cyfleusterau budr, diffyg trefniadau cysgu priodol, awyru annigonol (gan gynnwys ysmygu goddefol) a diffyg gwres digonol.
- Diffyg cyfleoedd i blant chwarae a dysgu

## 4. Cam-drin Rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, ddim o reidrwydd yn cynnwys trais lefel uchel, os yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio.

Gall gweithgarwch gynnwys cyffwrdd corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddio (er enghraifft, treisio neu gyfathrach eneuol) neu weithredoedd anhreiddiol megis mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i'r dillad.

Gall hefyd gynnwys gweithgarwch heb gyffwrdd, megis gwneud i blant edrych ar, neu gynhyrchu delweddau rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn modd rhywiol amhriodol, neu hudo plentyn i'w baratoi i gael ei gam-drin (gan gynnwys drwy'r rhyngrwyd).

Nid oedolion gwryw yn unig sydd yn cyflawni camdriniaeth rywiol. Gall merched hefyd gyflawni gweithredoedd o gam-drin rhywiol, fel y gall plant eraill.

### Dangosyddion yn y Plentyn - Ymddangosiad Corfforol

- Heintiau wrinol, gwaedu neu ddolur yn ardaloedd yr organau cenhedlu neu'r anws
- Poen rheolaidd wrth basio wrin neu garthion
- Gwaed ar ddillad isaf
- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Dolur yn y fagina neu waedu
- Beichiogrwydd mewn merch iau lle nad yw'r tad wedi'i ddatgelu a/neu lle mae cyfrinachedd neu amwysedd ynghylch pwy yw'r tad
- Symptomau corfforol megis anafiadau i ardal yr organau cenhedlu neu'r anws, cleisio ar y pen-ôl, yr abdomen a'r cluniau, clefyd a drosglwyddir yn rhywiol, presenoldeb semen ar y fagina, anws, organau cenhedlu allanol neu ddillad

### Dangosyddion yn y Plentyn – Ymddangosiad Emosiynol / Ymddygiadol

- Yn gwneud datgeliad.
- Dangos gwybodaeth neu ymddygiad rhywiol sy'n amhriodol i'w oedran/cam datblygu, neu sy'n anarferol o ddi-gêl
- Newidiadau o ran ymddygiad na ellir eu hegluro, fel bod yn ymosodol neu wedi encilio
- Hunan-niweidio, e.e. anhwylderau bwyta, hunan-anffurfio a cheisio cyflawni hunanladdiad
- Hunanddelwedd wael, hunan-niweidio, hunan-gasineb
- Amharod i ddadwisgo ar gyfer Addysg Gorfforol
- Rhedeg oddi cartref
- Sylw neu ganolbwyntio gwael (mewn byd bach eu hunain)
- Newidiadau sydyn mewn arferion gwaith ysgol, dechrau chwarae triwant
- Dod yn encilgar, wedi ei ynysu neu yn poeni'n ormodol
- Ymddygiad rhywioledig amhriodol
- Yn destun camfanteisio'n rhywiol neu ddewis diwahân o bartneriaid rhywiol
- Gwlychu neu ymddygiadau eraill sy'n gam yn ôl, e.e. sugno bawd

- Tynnu lluniau rhywiol di-gêl
- Iselder

## Dangosyddion yn y Rhieni

- Sylwadau a wneir gan y rhiant/gofalwr am y plentyn
- Diffyg ffiniau rhywiol
- Anawsterau neu wendidau magu plant ehangach
- Ymddygiad o feithrin perthynas amhriodol
- Mae'r rhiant yn droseddwr rhyw

## Dangosyddion yn y Teulu/Amgylchedd

- Wedi'u gwthio i'r cyrion neu eu harwahanu gan y gymuned.
- Hanes o iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais yn y cartref.
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, salwch neu nifer o lawdriniaethau yn achos y rhieni a/neu frodyr a chwiorydd yn y teulu
- Hanes o gam-drin yn ystod plentyndod, hunan niweidio, anhwylder somateiddio neu honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosbedigaeth gorfforol
- Aelod o'r teulu yn droseddwr rhyw.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Ar gyfer dealltwriaeth lawnach a dyfnach o ddangosyddion niwed.

## Atodiad D - plentyn yn datgelu am blentyn arall

## Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019

Beth i'w wneud os bydd Plentyn yn dweud wrthych ei fod ef/hi neu berson ifanc arall yn cael ei gam-drin?

- Dangoswch i'r plentyn eich bod wedi clywed yr hyn y mae'n ei ddweud, a'ch bod yn cymryd ei honiadau o ddifrif
- Anogwch y plentyn i siarad, ond peidiwch ag ysgogi na gofyn cwestiynau arweiniol. Peidiwch â thorri ar draws y plentyn pan fyddant yn trafod digwyddiadau sylweddol. Peidiwch â gwneud i'r plentyn ailadrodd ei hanes
- Esboniwch pa gamau y bydd rhaid i chi eu cymryd, mewn ffordd sy'n briodol i oedran a dealltwriaeth y plentyn
- Peidiwch ag addo cadw'r hyn a ddywedwyd wrthych yn gyfrinach, gan fod gennych gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i'r rhai sydd angen gwybod. Nid yw rhoi gwybod am bryderon yn bradychu ymddiriedaeth
- Ysgrifennwch yr hyn a ddywedwyd wrthych cyn gynted ag y gallwch chi, a dim hwyrach na 24 awr wedyn, gan ddefnyddio'r union eiriau os yw'n bosibl
- Cofnodwch a rhowch wybod am eich pryderon i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig. Peidiwch ag oedi

- Gofynnwch i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd a chofnodwch yr ymateb. Os nad ydych yn fodlon â’r camau a gaiff eu cymryd, ymgynghorwch â’r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Peidiwch â phoeni y gallech fod wedi gwneud camgymeriad. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn eich cymryd o ddifrif bob amser. Mae'n well eich bod wedi trafod y mater gyda rhywun sydd â'r profiad a'r cyfrifoldeb i wneud asesiad
- Peidiwch â herio'r camdriniwr honedig (a all fod yn berson ifanc ei hun)
- Gwnewch nodyn ysgrifenedig (Gweler y daflen ar wahân) gan gynnwys yr hyn a wnaethoch a'r ymateb a gawsoch, e.e. gan yr Arweinydd Diogelu Dynodedig, a chofnodwch unrhyw ystyriaethau, penderfyniadau a chamau gweithredu dilynol y gallwch eu cymryd
- Adolygwch unrhyw gamau a gymerwyd – **COFNODWCH, RHOWCH WYBOD AC ADOLYGWCH**

Dylai arsylwadau ffeithiol gynnwys sylwadau’r plentyn air am air:

## Sylwadau’r Plentyn

Beth oedden nhw'n ei ddweud mewn gwirionedd, dyfynnwch eu geiriau, peidiwch â rhoi seren yn hytrach na rhegfeydd neu eiriau anodd. Defnyddiwch eiriau gwirioneddol os gallwch eu cofio neu nodwch mai geiriau tebyg a ddefnyddiwyd a'ch bod yn dweud yn fras

## Sefyllfa a Thasg

Lle oedd y digwyddiad, beth oedd y plentyn i fod yn ei wneud, a oedd yn dasg/sefyllfa arferol i’r plentyn, a oedd hyn yn rhywbeth na fyddai’r plentyn wedi’i brofi o’r blaen. A roddwyd cyfarwyddiadau clir?

## Eraill yn bresennol

Faint o blant eraill a oedd yn bresennol, a oedd unrhyw un ohonynt yn rhan o’r digwyddiad, beth oedd eu cyfraniad i’r digwyddiad?

## Ffactorau Amgylcheddol

A oedd unrhyw beth am amgylchedd corfforol y plentyn a oedd yn effeithio ar eu hymddygiad?

## Oedolion eraill yn bresennol

A oes angen i chi groesgyfeirio eich cyfrif am y digwyddiad gydag unrhyw un arall?

## Sylwadau’r Oedolyn

Pa eiriau a ddywedwyd wrth y plentyn mewn gwirionedd ar ddiwedd y digwyddiad?

## Cofnod Ysgrifenedig

Cofnodwch Amser, Diwrnod a Lleoliad y digwyddiad, unrhyw ddatgeliad a'r amser y gwnaed y nodiadau. Rhaid i gofnodion fod yn:

| | |
|---|---|
| Amserol | Cyn gynted ag y bo modd ac o fewn yr un diwrnod gwaith, ac os yw'n bryder neu'n atgyfeiriad yn ymwneud ag amddiffyn plant cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. |
| Ffeithiol | Peidiwch â chofnodi eich barn - dychmygwch eich bod yn gamera fideo sy'n gwylio'r digwyddiad, ac ysgrifennwch naratif sy'n ddisgrifiadol ond nid yn rhy gymhleth. |

## Casgliad o ran y Digwyddiad

Sut y daeth y mater i ben, sut oedd ymddygiad y plentyn ar ddiwedd ac ar ôl y digwyddiad? Disgrifiwch eich gweithredoedd dilynol, e.e. rhoi gwybod i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a rhoi'r nodiadau am y digwyddiad i'r unigolyn hwn. Lle y bo'n briodol, darparwch resymeg dros eich penderfyniad.

**Sylwer:** Ni fydd pob eitem uchod yn berthnasol i bob cofnod, byddwch yn ymwybodol o'r penawdau a chofnodwch y wybodaeth sydd ar gael, peidiwch â theimlo rheidrwydd i 'roi tic ym mhob blwch'

## Atodiad E – Camau i'w cymryd pan fo bwriad i siarad â phlentyn i weld p'un ai a oes yna bryder yn bodoli yn ymwneud ag amddiffyn plant

Yn amodol ar unrhyw fynegiant barn gan Lywodraeth Cymru mewn canllawiau diwygiedig, cynghorir yr Arweinydd Diogelu Dynodedig i gymryd y camau dilynol pan ddylid siarad â phlentyn er mwyn penderfynu os oes pryder yn bodoli yn ymwneud ag amddiffyn plant:

- Dylid cynnig cyfle i'r plentyn gael cefnogaeth gan oedolyn o'u dewis yn y cyfarfod ("Yr Oedolyn Cysylltiedig"), p'un a fydd yn aelod o staff yr ysgol neu riant neu berthynas arall.

- Fel arfer, dylid parchu dymuniad y plentyn, os yw'n ymarferol cydymffurfio ag ef (neu oni bai bod yr oedolyn a enwir yn ymwneud mewn rhyw ffordd â'r pryder sy'n cael ei ymchwilio). Os nad oes modd caniatáu i'r oedolyn hwnnw fod yn bresennol, dylid gofyn i'r plentyn enwebu oedolyn arall. Os nad yw'r plentyn yn teimlo y gall ddewis, dylai'r Arweinydd Diogelu Dynodedig awgrymu rhywun priodol.

- Fel y nodwyd uchod, dylid rhoi gwybod i'r Oedolyn Cysylltiedig beth yw pwrpas y cyfarfod ymlaen llaw a rhoi cyfle iddynt drafod y materion gyda'r disgybl. Dylai'r Oedolyn Cysylltiedig ei gwneud yn glir eu bod yno i gefnogi a chynghori'r disgybl, ond ni ddylent addo cadw trafodaethau rhwng y disgybl a nhw yn gyfrinachol, oherwydd mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd lle rhoddir gwybod i'r Oedolyn Cysylltiedig am

faterion y mae’n rhaid rhoi gwybod i Wasanaeth Erlyn y Goron, y gwasanaethau cymdeithasol neu’r heddlu amdanynt.

- Dylid hysbysu’r Oedolyn Cysylltiedig na ddylai ef / hi oedi cyn ymyrryd ar ran y disgybl os ystyrir bod unrhyw agwedd o’r cyfarfod yn amhriodol.

- Dylai’r Oedolyn Cysylltiedig siarad â’r disgybl ar ôl y cyfarfod i geisio rhoi sicrwydd a chefnogaeth.

## Atodiad F - Camau i'w cymryd wrth gyfarfod person ifanc i ganfod a yw'r protocol Ymddygiad Rhywiol Niweidiol yn berthnasol neu a oes yna berthynas rywiol sy’n peri risg o niwed iddynt

Yn amodol ar unrhyw fynegiant barn gan Lywodraeth Cymru mewn canllawiau diwygiedig, cynghorir yr Arweinydd Diogelu Dynodedig i gymryd y camau canlynol wrth siarad â pherson ifanc mewn cyd-destun diogelu ac amddiffyn plant:

- Mae’n rhaid ystyried a yw’r cyfarfod yn briodol o dan y canllawiau perthnasol a beth yw amcan y cyfarfod.

- Mae angen ystyried a yw’r disgybl yn debygol o fod yn agored i niwed a dylid nodi unrhyw anghenion cefnogaeth penodol.

- Dylid ystyried nifer yr oedolion sy’n bresennol yn y cyfarfod a phwy ydynt, a dylid ystyried a yw eu presenoldeb yn angenrheidiol.

- Dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod lleoliad y cyfarfod yn darparu digon o breifatrwydd a chyfrinachedd.

- Cyn i’r cyfarfod ddechrau, dylid hysbysu’r disgybl a’r Oedolyn Cysylltiedig o bwrpas y cyfarfod a rhoi cyfle i’r disgybl siarad â’r Oedolyn Cysylltiedig cyn i’r cyfarfod ddechrau. Dylid dweud wrth y disgybl y gall siarad â’r Oedolyn Cysylltiedig ar unrhyw adeg.

- Dylid gofyn i’r disgybl am y materion dan sylw mewn modd sensitif a’i wahodd i gyflwyno ei safbwynt. Ni ddylid ei roi dan unrhyw bwysau i wneud hynny.

- Os daw'n amlwg ar unrhyw adeg bod angen cyflwyno atgyfeiriad ffurfiol i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, mae'n rhaid i'r cyfarfod ddod i ben.

- Mae'n bosibl y bydd angen rhoi cyngor i'r disgybl o ran sut i ymddwyn yn y dyfodol. Dylid rhoi cyngor o'r fath mewn modd sensitif ac anfeirniadol.

- Dylid gorffen y cyfarfod trwy roi sicrwydd i'r disgybl.

## Atodiad G - Cofnod Contractwyr / Ymwelwyr Dyddiol

### Logo'r Ysgol

### Cofnod Contractwyr Dyddiol

Dylid rhoi Gwybodaeth Ddiogelu i bob Contractwr a dylid cofnodi enwau contractwyr.

| **Dyddiad** | **Amser Cyrraedd** | **Amser Gadael** | **Enw** | **Cwmni** | **Rheswm dros yr ymweliad** | **Gwybodaeth AP wedi ei rhoi** | **Asesiad Risg** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Dilys<br>Rhif GDG: | |
| | | | | | | | Yng nghwmni rhywun ar y safle | |
| | | | | | | | Ddim mewn ardaloedd lle bydd disgyblion ar eu pen eu hunain | |
| | | | | | | | Dilys<br>Rhif GDG: | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Yng nghwmni rhywun ar y safle | |
| | | | | | | | Ddim mewn ardaloedd lle bydd disgyblion ar eu pen eu hunain | |
| | | | | | | | Dilys<br><br>Rhif GDG: | |
| | | | | | | | Yng nghwmni rhywun ar y safle | |
| | | | | | | | Ddim mewn ardaloedd lle bydd disgyblion ar eu pen eu hunain | |

## Atodiad H - Rhannu Gwybodaeth

7 Rheol Aur ar gyfer Rhannu Gwybodaeth

1. Cofiwch nad yw'r Ddeddf Diogelu Data yn rhwystr rhag rhannu gwybodaeth, ond mae'n darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol ynghylch pobl sy'n fyw yn cael ei rhannu'n briodol.

2. Byddwch yn agored ac yn onest o'r dechrau gyda'r unigolyn (a/neu ei deulu, lle bo hynny'n briodol) ynglŷn â pham, beth, sut a gyda phwy y bydd neu y gallai'r wybodaeth gael ei rhannu. Gofynnwch iddynt gytuno i hynny, oni bai ei bod yn anniogel neu'n amhriodol i wneud hynny.

3. Gofynnwch am gyngor os oes gennych unrhyw amheuaeth heb ddatgelu, pan fo'n bosibl, pwy yw'r unigolyn.

4. Rhannwch gyda chydsyniad lle bo'n briodol a, lle bo modd, parchwch ddymuniadau'r rhai hynny nad ydynt yn cydsynio i rannu gwybodaeth gyfrinachol. Mae'n bosibl o hyd i chi rannu gwybodaeth heb gydsyniad os, yn eich barn chi, y gellir diystyru'r diffyg cydsyniad er budd y cyhoedd. Bydd angen i chi seilio eich barn ar ffeithiau'r achos.

5. Ystyriwch ddiogelwch a lles: Seiliwch eich penderfyniadau yn ymwneud â rhannu gwybodaeth ar ystyriaethau diogelwch a lles yr unigolyn a phobl eraill y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt.

6. Angenrheidiol, cymesur, perthnasol, cywir, amserol a diogel: Sicrhewch fod y wybodaeth rydych yn ei rhannu yn angenrheidiol at y diben o'i rhannu, ei bod yn cael ei rhannu â'r bobl hynny sydd ei hangen yn unig, ei bod yn gywir ac yn gyfredol, yn cael ei rhannu mewn modd amserol, ac yn cael ei rhannu'n ddiogel.

7. Cadwch gofnod o'ch penderfyniad a'r rhesymau dros ei rannu – pa unai ydych yn rhannu'r wybodaeth neu beidio. Os byddwch yn penderfynu rhannu, yna cofnodwch yr hyn rydych wedi ei rannu, gyda phwy ac at ba ddiben.

## Atodiad I - Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Addysg

## Cyngor Sir Ddinbych

## Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Addysg

Strategaeth ar gyfer darparu Hyfforddiant, Cefnogaeth a Chyngor gan y Swyddog Diogelu Addysg i Ysgolion a'r Gwasanaethau Addysg

## Medi 2024- Gorffennaf 2025

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad**

**2. Cyd-destun a Chanllawiau Cenedlaethol**

- **Hyfforddiant**
- **Cyngor a chefnogaeth**
- **Gwerthuso ac Effeithiolrwydd**

**3. Hyfforddiant**

- **Darparu Hyfforddiant ar gyfer Staff Ysgol**
- **Darparu Hyfforddiant ar gyfer Staff y Gwasanaeth Addysg**
- **Cyngor a chefnogaeth**

- **Gwerthuso, Effeithiolrwydd a Chydymffurfiaeth (Archwiliad Diogelu ynghlwm)**

**4. Cynllunio ar gyfer y dyfodol**

- **Cyngor a Chefnogaeth**
- **Gwerthuso ac Effeithiolrwydd**

## 1. Cyflwyniad

Pwrpas y strategaeth hon yw darparu fframwaith ar gyfer gwasanaethau hyfforddiant, cefnogaeth a chyngor diogelu ar gyfer ysgolion a gwasanaethau addysg yn Sir Ddinbych. Pennir hyn gan y fframwaith cyfreithiol a'r canllawiau statudol, amcanion cynllun busnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ac yn unol â chylch gorchwyl BDGC.

Mae arfer Diogelu Plant a Recriwtio Mwy Diogel yn nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ddarparu cefnogaeth sy'n sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros ddiogelu plant, monitro eu perfformiad, sicrhau bod hyfforddiant priodol, polisïau a gweithdrefnau enghreifftiol ar gael, darparu cyngor a chefnogaeth, a hwyluso cysylltiadau a chydweithredu ag asiantaethau eraill, gwasanaethau statudol ac anstatudol.

Yn Sir Ddinbych mae'r gefnogaeth yn cael ei darparu gan un Swyddog Diogelu Addysg a gyflogir gan y Gwasanaeth Addysg gyda chanolbwynt sylfaenol i gadw plant yn ddiogel trwy gyfrannu at:

- Greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel ar gyfer plant a phobl ifanc
- 
- Nodi lle y ceir pryderon ynghylch lles plant a chymryd y camau i ddelio â nhw, lle bo'n briodol, mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill, a
- Datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwytnwch plant trwy'r cwricwlwm.

## 2. Cyd-destun a Chanllawiau Cenedlaethol

## Hyfforddiant

Mae adran 175 Deddf Addysg 2002 ar gyfer ysgolion a gynhelir yn nodi

“Dylai Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a cholegau AB wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau yn cael eu cyflawni gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant”

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 283/2022: gweithredu ei bwerau dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

“Mae pawb yn y gwasanaeth addysg yn rhannu amcan i gynorthwyo i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy gyfrannu at:

Ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer plant a phobl ifanc i ddysgu mewn lleoliadau addysg,

a

Nodi plant a phobl ifanc sy’n dioddef neu’n debygol o ddioddef niwed sylweddol a chymryd camau priodol gyda’r nod o sicrhau eu bod yn ddiogel yn y cartref ac mewn lleoliad addysg”.

Er mwyn galluogi staff i gyflawni’r gofynion uchod mae’r canllawiau yn egluro’r disgwyliadau o ran hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion. Dylai’r holl staff sy’n gweithio gyda phlant mewn ysgolion a llywodraethwyr ysgolion, ymgymryd â hyfforddiant diogelu plant fydd yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran diogelu plant yn effeithiol a dylai bod hyfforddiant atgoffa priodol hefyd ar gael i sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau’r staff yn gyfredol. Dylai bod y staff hyn yn derbyn hyfforddiant atgoffa bob blwyddyn.

Mae’n rhaid i’r hyfforddiant diogelu hwn fynd y tu hwnt i bresenoldeb staff mewn sesiynau hyfforddi a drefnwyd gan ysgolion yn y dyfodol i sefyllfa sy’n galluogi'r gwasanaeth addysg ac ysgolion yn Sir Ddinbych i asesu eu staff drwy raglenni hyfforddi cynhwysfawr sy’n cynnig gwerthusiad o ddealltwriaeth staff. Bydd yr hyfforddiant hwn yn sicrhau bod y gwasanaeth addysg ac ysgolion yn diwallu eu dyletswyddau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae’r ysgolion hefyd yn cyfrannu drwy’r cwricwlwm drwy ddatblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwytnwch y plant. Mae Estyn yn arolygu yn erbyn i ba raddau y mae ysgolion yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran diogelu. Mewn ysgolion mae pa mor effeithiol yr hyrwyddir diogelu’r dysgwyr yn raddfa gyfyngol ar effeithiolrwydd cyffredinol. Mae creu amgylchedd dysgu diogel yn golygu bod â threfniadau effeithiol ar waith i fynd i’r afael ag amrediad o faterion.

Mae’r rhain yn cynnwys y trefniadau gofal a diogelu, iechyd a diogelwch disgyblion, bwlio, diogelwch yr ysgol, ymdrin â chyffuriau a chamddefnyddio sylweddau a darparu’r cyfle i blant drafod eu pryderon gyda staff sydd wedi eu hyfforddi’n dda sy’n deall yr agenda diogelu.

## Cyngor a Chefnogaeth

**Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 283/2022** Mae cylchlythyr cyfredol canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau darpariaeth:

- Polisïau a Gweithdrefnau Enghreifftiol
- Cyngor a chefnogaeth ynglŷn â diogelu
- Hwyluso cysylltiadau a chydweithrediad rhwng asiantaethau
- Cyngor a chefnogaeth ar gyfer staff dynodedig sy'n ymdrin ag achosion unigol
- Staff sy'n gallu gweithredu drwy ddefnyddio 'barn broffesiynol' i ddatrys unrhyw anawsterau
- Cefnogaeth ar gyfer y rhai gyda chyfrifoldeb arweiniol dynodedig ar gyfer "diogelu" ac annog a meithrin dealltwriaeth dda a pherthynas waith rhyngddynt hwy, gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant, a staff mewn **asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu plant er mwyn datblygu gwaith partneriaeth effeithiol**

## Gwerthuso ac Effeithiolrwydd

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 283/2022 yn nodi: -

"Dylai'r awdurdod lleol fonitro cydymffurfiaeth ysgolion a gynhelir â'r canllawiau hyn, yn arbennig o ran bodolaeth a gweithrediad polisïau a gweithdrefnau priodol a hyfforddiant staff, gan gynnwys yr unigolyn uwch gyda chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer diogelu. Dwyn unrhyw ddiffygion i sylw corff llywodraethu'r ysgol a'u cynghori ynglŷn â'r camau sydd eu hangen i'w datrys".

"Gweithio i sicrhau bod sefydliadau sy'n gweithio neu'n cael cyswllt â phlant yn gweithredu arferion recriwtio ac adnoddau dynol sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant".

## 3. Hyfforddiant

## Hyfforddiant Ar Gyfer Holl Staff yr Ysgol

### Ar-lein

Yr hyfforddiant sydd ar gael i ysgolion o fis Medi 2024 yw:

- HWB Llywodraeth Cymru (ar-lein) modiwlau hyfforddiant Diogelu:

  **Cyfarwyddiadau a dolen i wefan Hwb:**

  **Ewch i'r ddolen ar y dudalen flaen Cadw'n Ddiogel Ar-lein, cliciwch ar yr eicon Hyfforddiant, modiwlau sydd ar gael i staff eu cwblhau**

  https://nyth.llyw.cymru/

**Mae angen i ysgolion sicrhau bod proses fonitro a rhaglen flynyddol lle mae pob aelod o staff yn cwblhau rhaglen e-ddysgu Hwb Llywodraeth Cymru.**

Mae’r rhaglen hyfforddi yn seiliedig ar fodiwlau gydag asesiad wedi’i sgorio o ddealltwriaeth staff ar ddiwedd yr hyfforddiant.

Mae’n rhaid i’r holl staff dderbyn marc sy'n uwch na 75% ar fodiwlau HwB er mwyn cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus. Bydd y wybodaeth hon yn ffurfio rhan o’r gwerthusiad y bydd tîm rheoli’r ysgol yn gallu ei weld a gweithredu arno os gwelir bod angen rhagor o hyfforddiant ar staff unigol.

Mae’n bosibl y bydd angen i staff nad ydynt yn llwyddo yn yr asesiad:

- Gwblhau’r rhaglen hyfforddi am yr eildro.
- Cwblhau modiwlau penodol yn unig.
- Dilyn hyfforddiant penodol wedi’i ddarparu gan yr ysgol ar y rhaglen hyfforddi h.y. cefnogaeth 1 i 1 / anghenion hyfforddi grŵp.
- Gael eu hatgyfeirio i AD os na all aelod unigol o staff basio’r gofyniad hyfforddi statudol ar gyfer y swydd.

## **Darpariaeth Hyfforddiant Diogelu at Gyfer Staff Ysgol a Llywodraethwyr**:

| **Cwrs:** | **Grŵp Targed**: | **Dull o Ddarparu:** | **Darparwyd gan:** | **Amlder**<br><br>**Angenrheidiol a/neu hyd** |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu Sylfaenol a**<br><br>**Chyfrifoldebau staff unigol** | **Grŵp staff cyfan**<br><br>**Staff Newydd a**<br><br>**Gwirfoddolwyr** | **Rhaglen Hwb Llywodraeth Cymru sy’n cynnwys asesiad a thystysgrif** | **Hwb Llywodraeth Cymru**<br><br>**Darparwr allanol a gymeradwywyd i ysgolion** | **Yn flynyddol**<br><br>**Wrth sefydlu staff a gwirfoddolwyr newydd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Penodol ar gyfer**<br><br>**Arweinwyr Diogelu Dynodedig a**<br><br>**Phenaethiaid** | **Arweinwyr Diogelu Dynodedig** | **Hyfforddiant Timau Ar-lein Arweinydd Diogelu Dynodedig** | **Addysg Sir Ddinbych**<br><br>**Hyfforddiant mewnol** | **Blynyddol ac yn ystod cwrs cyflwyno deiliaid swyddi newydd drwy fynediad agored i hyfforddiant ar-lein**<br><br>**TEAMS** |
| **Llywodraethwr Ysgol â chyfrifoldeb penodol am Ddiogelu** | **Llywodraethwyr Penodol**<br><br>**Y Corff Llywodraethu Cyfan**<br><br>**(Dewisol)** | **Rhaglen e-ddysgu Hwb Llywodraeth Cymru i gynnwys asesiad a thystysgrif**<br><br>**Hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig / gweithdai** | **Hwb Llywodraeth Cymru**<br><br>**Awdurdod Lleol** | **Dwywaith y flwyddyn**<br><br>**Wrth sefydlu staff neu wirfoddolwyr newydd**<br><br>**Yn ôl yr angen** |
| **Hyfforddiant unigryw ar gyfer materion penodol a geisir o arolygon Estyn y clwstwr**<br><br>**ac archwiliadau diogelu** | **Ysgolion a nodwyd** | **Darperir drwy Gwrs a Ddysgir neu drwy gomisiynu**<br><br>**Cefnogaeth ychwanegol fel sy'n briodol** | **Y Swyddog Diogelu** | **I'w gadarnhau yn seiliedig ar Ddadansoddiad o Anghenion Hyfforddi** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cwrs Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso**<br><br>**Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu** | **Athrawon Newydd Gymhwyso** | **Sesiwn Ymwybyddiaeth Hyfforddiant Diogelu (Microsoft Teams)** | **Y Swyddog Diogelu** | **Awr** |
| **Hyfforddiant ar faterion penodol** | **Arweinwyr Diogelu Dynodedig Ysgolion** | **Gweithdai Adolygu Achos ac Ymdriniaeth Dysgu Sut i Weithredu** | **Y Swyddog Diogelu**<br><br>**Uned Ddiogelu'r Gwasanaethau Plant** | **I'w gadarnhau** |
| **Offer archwilio Diogelu Ysgolion** | **Timau rheoli ysgolion** | **Cefnogi dadansoddiad o anghenion hyfforddi staff** | **Y Swyddog Diogelu** | **Yn flynyddol** |

## Darparu Hyfforddiant ar gyfer Staff y Gwasanaeth Addysg

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu sylfaenol a chyfrifoldebau unigol** | **Staff y Gwasanaeth Addysg** | **Rhaglen e-ddysgu gydag asesiad a thystysgrif** | **Hwb Llywodraeth Cymru** | **Blynyddol**<br><br>**Wrth sefydlu staff newydd** |
| **Diogelu ar gyfer Rheolwyr / Arweinwyr Tîm**<br><br>**Penaethiaid sydd newydd eu penodi** | **Timau Rheoli'r Gwasanaethau Addysg** | **Cwrs undydd Lefel 3**<br><br>**(Cwrs undydd Arweinyddiaeth Diogelu)** | **Hyfforddiant neu ddarparwr cymeradwy** | **Blynyddol ac yn ystod cwrs cyflwyno deiliaid swyddi newydd drwy gwrs** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **mynediad agored** |

## Cyngor a Chymorth

| | |
|---|---|
| **Tudalen Addysg**<br><br>**Ar wefan CSDd** | **Roedd y wybodaeth yn cynnwys:**<br><br>**Amserlen Hyfforddiant**<br><br>**Dolenni i ddogfennau canllawiau a gweithdrefnau**<br><br>**Polisïau enghreifftiol ar gyfer diogelu ac e-ddiogelwch**<br><br>**Maes arfer da i rannu polisïau ac arfer mewn ysgolion**<br><br>**Manylion cyswllt Cydlynwyr Amddiffyn Plant**<br><br>**Archwiliad Diogelu Ysgolion**<br><br>**Cyrsiau hyfforddi ar gael gan gynnwys diwrnodau astudio Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru**<br><br>**Unrhyw gynadleddau a chyrsiau allanol perthnasol**<br><br>**Hyfforddiant ar y cyd wedi ei gomisiynu rhwng Addysg, Ysgolion a Gwasanaethau Plant** |

| | |
|---|---|
| | |
| Ymgynghoriadau Diogelu | **Fe fydd y Swyddog Diogelu yn ymweld ag ysgolion cyn arolygiadau Estyn i ddarparu cefnogaeth a sicrhau bod gweithdrefnau a gwaith papur yn dilyn arolwg yn drwyadl ac yn adlewyrchu canllawiau'r sir a chanllawiau cenedlaethol.**<br><br>**Desg gymorth y Gwasanaeth Lles Addysg i Ysgolion**<br><br>**Ar gael yn ddyddiol i ysgolion a'r Gwasanaethau Addysg am gyngor a phryderon yn ymwneud â chyfeirio**<br><br>**Derbyn ac ymateb i alwadau uniongyrchol gan ysgolion a'r gwasanaethau addysg yn ymwneud ag ymholiadau diogelu neu ddarparu cyngor neu gyfeirio ar faterion unigol, materion diogelu neu honiad yn erbyn aelodau o staff.**<br><br>**Cydgysylltu rhwng yr ysgol a gwasanaethau plant pan fo pryder yn ymwneud ag amddiffyn plant wedi ei godi gan ba bynnag asiantaeth i gefnogi'r ysgol i sicrhau gweithredu ar unwaith.**<br><br>**Rhif Cyswllt y Ddesg Gymorth: 01824 708064** |

## Gwerthuso, Effeithiolrwydd a Chydymffurfiaeth

| | |
|---|---|
| Archwiliad Diogelu | **Adroddiad adborth archwiliad diogelu ysgolion i ysgolion yn cyfeirio at feysydd a nodwyd ar draws y sir sydd angen gwelliant neu ddadansoddiad bwlch fel rhan o gynlluniau** |

| | |
|---|---|
| | **gwella'r ysgol a'r awdurdod lleol yn ymwneud â diogelu.** |

## 4. Cynllunio ar gyfer y dyfodol

## Cyngor a Chefnogaeth i Ysgolion - Arolygon gan Estyn

- Byddwn yn sicrhau lle mae Estyn yn gwneud argymhellion o ran gwelliannau diogelu neu feysydd sydd angen sylw fel rhan o gynllun gweithredu ar ôl yr arolwg yn yr ysgol, bydd yr awdurdod addysg yn cynorthwyo'r ysgol gyda hyn a rhoi cynlluniau ar waith i fonitro newid sy'n bodloni'r awdurdod, Estyn, a'r esgobaeth lle bo'n berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys cynnig cefnogaeth barhaus i'r ysgolion hynny mewn mesurau arbennig neu sydd â chynlluniau gweithredu ar ôl arolwg i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn adroddiad arolwg yr ysgol.

## Gwerthuso ac Effeithiolrwydd

- Bydd yr archwiliad diogelu yn cael ei adolygu i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn canllawiau, ynghyd ag unrhyw adolygiad o ddiogelu gan ymgynghorwyr allanol a gomisiynwyd gan y gwasanaeth addysg a'r adroddiad blynyddol i Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru.
- Caiff gwybodaeth o'r archwiliad ei mewnbynnu i archwiliad adran 28 a ddarperir i Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru o ran pob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant yn Sir Ddinbych ar eu heffeithiolrwydd wrth ddiogelu plant.
- Effeithiolrwydd darpariaeth hyfforddiant – mae ffurflenni gwerthuso'n cael eu llenwi ar ddiwedd pob hyfforddiant a bydd yr wybodaeth yn parhau i gael ei hadolygu'n flynyddol yn ychwanegol at unrhyw ymateb uniongyrchol y gellir ei weithredu.
- Mae hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer adolygiad parhaus y strategaeth hyfforddiant ac unrhyw newidiadau i'r cynllun hyfforddi.
- Bydd yr adborth o'r ffurflenni gwerthuso'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol i Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru.

## Atodiad J – Manylion Cyswllt y Porth Cefnogaeth Plant a Theuluoedd

Bydd y tîm hwn yn gyfrifol am ymateb i'r holl geisiadau am wybodaeth a chyngor ynghyd â rheoli atgyfeiriadau sy'n cael eu hanfon sy'n gysylltiedig â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd angen i unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud ag oedolion yn unig gael eu cyfeirio i'r Pwynt Mynediad Sengl newydd.

Gellir canfod y manylion cyswllt ar gyfer y timau isod.

| Ymholiadau neu atgyfeiriadau sy'n ymwneud â ***Phlant*** | Ymholiadau neu atgyfeiriadau sy'n ymwneud ag ***Oedolion*** |
| --- | --- |
| **Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd**<br>**Ffôn: 01824 712200**<br>**Ffacs: 01824 712233**<br>**E–bost:**<br>**cfsgateway@denbighshire.gov.uk** | **Un Pwynt Mynediad (Oedolion)**<br>**Ffôn: 0300 4561000**<br>**Ffacs: 01824 712888**<br>**E-bost:**<br>**spoa@sirddinbych.gov.uk** |

**Bydd llif gwybodaeth reolaidd rhwng y ddau dîm o ran teuluoedd diamddiffyn. Fodd bynnag, os bydd ymholiad neu atgyfeiriad yn ymwneud â phlant ac oedolion, byddai'n ddefnyddiol copïo unrhyw negeseuon e-bost i'r ddau gyfeiriad.**